

## **Legislation Committee**

**Date:** 4 April 2006  
**Time:** 9.30am  
**Venue:** National Assembly for Wales, Cardiff Bay  
**Title:** Scrutiny of Legislation in the Assembly

## **Y Pwyllgor Deddfau**

**Dyddiad:** 4 Ebrill 2006  
**Amser:** 9.30 am  
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd  
**Teitl:** Craffu ar Ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn y Cynulliad

**GWEITHREDU SYSTEM DEDDFU A  
CHYFIAWNDER SYDD YN YMARFEROL  
YN TRIN Y GYMRAEG A'R SAESNEG AR  
Y SAIL EU BOD YN GYFARTAL.**

**THE OPERATION OF A SYSTEM OF  
LAWMAKING AND JUSTICE THAT IN  
PRACTICE TREATS ENGLISH AND  
WELSH ON A BASIS OF EQUALITY.**

**ADRODDIAD PELLACH AR Y GWERSI O  
BROFIADAU CANADA**

**A FURTHER REPORT ON THE LESSONS  
FROM CANADIAN EXPERIENCES**

### ***Cyflwyniad***

Ar wahoddiad Uchel Gomisiwn Canada a Llywodraethau Canada, New Brunswick a Québec, ymwelodd y ddirprwyaeth â Moncton a Fredericton yn New Brunswick (NB), Dinas Québec ac Ottawa ym Medi 2001. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un a fu'n trefnu'r ymweliad ac a dreuliodd gymaint o amser yn paratoi i'n gweld ni, yn trafod materion gyda ni ac yn ateb ein cwestiynau niferus.

Aelodau'r ddirprwyaeth oedd:

Meistr Ustus Thomas, Barnwr Llywyddol Arweiniol Cylchdaith Cymru a Chaer;

Meistr Ustus Evans, Barnwr Adran Mainc y Frenhines o'r Uchel Lys;

### ***Introduction***

At the invitation of the Canadian High Commission and the Governments of Canada, New Brunswick and Québec, the delegation visited Moncton and Fredericton in New Brunswick (NB), Québec City and Ottawa in September 2001. We are very grateful to all those who arranged the visit and spent so much time preparing to see us, discussing matters with us and answering our numerous questions.

The delegation consisted of:

Mr Justice Thomas, Senior Presiding Judge of the Wales and Chester Circuit;

Mr Justice Evans, Judge of the Queen's Bench Division of the High Court;

Winston Roddick, C.F., Cwnsler Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Mrs Nerys Arch, Uwch-gwnsler Cynulliad, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol;

Mr John Lewis, Cyfieithydd Cyfreithiol, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Ymunodd Ms Lia O'Hegarty, Cynghorydd Cyfreithiol Seneddol yn Iwerddon â'r ddirprwyaeth ar ei hymweliad â Québec ac Ottawa.

#### *Pwrpas yr ymweliad*

O ganlyniad i'r ymweliad ym Medi 2000 (gweler Adroddiad Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol "Deddfu a Chyfiawnder Dwyieithog", 2000) (Adroddiad SCC 2000) a gwaith pellach a wnaethpwyd yng ngoleuni'r Adroddiad hwnnw ar gyd-drafftio a safoni termau, roedd angen ymchwiliad manylach i feysydd penodol. Gwnaethpwyd ein hymweliad er mwyn edrych yn fanylach ar y profiadau yng Nghanada a chanfod y gwersi manwl i'w dysgu y gellid eu cymhwyso wrth weithredu darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 o safbwynt gweinyddu cyfiawnder a darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n ymwneud â pharatoi a mabwysiadu deddfwriaeth y Cynulliad. Ymchwiliad technegol oedd gennym, ac nid oeddem yn gwneud unrhyw ymchwiliad ehangach i ddwyieithrwydd.

#### *Y trefniadau lleol yng Nghanada a NB*

Mae Deddfau Cyfansoddiad Canada 1867-1982 (fel y maent wedi eu cydgrynhoi), Y Siarter Hawliau a Rhyddhadau, Deddf Ieithoedd Swyddogol 1988 (a gymerodd le Deddf 1969) a darpariaethau ieithyddol y Cod Troseddau yn darparu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer statws cyfartal i'r Ffrangeg a'r Saesneg. Er enghraifft, mae a.16(1) Deddfau Cyfansoddiad 1867 hyd 1982 (fel y maent wedi eu cydgrynhoi) yn

Winston Roddick, Q.C., Counsel General to the National Assembly for Wales;

Mrs Nerys Arch, Senior Assembly Counsel, Office of the Counsel General;

Mr John Lewis, Legal Translator, Office of the Counsel General.

The delegation was accompanied on their visit to Québec and Ottawa by Ms Lia O'Hegarty, Parliamentary Legal Adviser, Ireland.

#### *The purpose of the visit*

As a result of the visit made in September 2000 (see the Report of the Office of the Counsel General "Bilingual Law Making and Justice, 2000) (The OCG Report 2000) and further work carried out in the light of that Report on co-drafting and standardisation of terminology, a more detailed enquiry was needed into specific areas. Our visit was made for the purpose of further investigating the experiences in Canada and ascertaining the detailed lessons to be learnt that could be applied in the implementation in practice of the provisions of the Welsh Language Act 1993 as regards the administration of justice and the provisions of the Government of Wales Act 1998 relating to the preparation and enactment of Assembly legislation. Ours was a technical enquiry and we were not making any wider enquiry into bilingualism.

#### *The legal regime in Canada and NB*

The Canadian Constitution Acts 1867-1982 (as consolidated), The Charter of Rights and Freedoms, the Official Languages Act 1988 (replacing the 1969 Act) and the language provisions of the Criminal Code provide the legal basis for equality of status between the French and English languages. For example, s.16(1) of the Constitution Acts 1867 to 1982 (as consolidated) provides:

nodi mai:

- (1) Saesneg a Ffrangeg yw ieithoedd swyddogol Canada ac mae ganddynt statws cyfartal a hawliau a breintiau cyfartal pan ddefnyddir hwy yn holl sefydliadau Senedd a llywodraeth Canada.
- (2) Saesneg a Ffrangeg yw ieithoedd swyddogol New Brunswick ac mae ganddynt statws cyfartal a hawliau a breintiau cyfartal o safbwynt y defnydd a wneir ohonynt yn holl sefydliadau corff deddfwriaethol a llywodraeth New Brunswick.

Ceir darpariaeth arall yn Neddfau Cyfansoddiad Canada (a.16.1) a ychwanegwyd yn 1993 ac sy'n berthnasol i gymunedau ieithyddol gwahanol NB sy'n delio â materion ehangach. Yn ôl y ddarpariaeth hon:

Mae gan y gymuned ieithyddol Seisnig a'r gymuned ieithyddol Ffrengig yn New Brunswick statws cyfartal a hawliau a breintiau cyfartal, gan gynnwys yr hawl i sefydliadau addysgol ar wahân a'r cyfryw sefydliadau diwylliannol ar wahân sydd eu hangen er mwyn diogelu a hybu'r cymunedau hynny.

Adlewyrchir y ddarpariaeth hon yn neddfwriaeth NB fel Y Ddeddf sy'n Cydnabod Cydraddoldeb y Ddwy Gymuned Ieithyddol Swyddogol sydd yn New Brunswick. Nid oedd y materion hanesyddol, cymdeithasol a gwleidyddol eang a godid gan y darpariaethau hyn yn rhan o gwmpas ein hymchwiliad; roedd yr ymchwiliad hwn wedi ei gyfyngu i'r dulliau technegol ac ymarferol o weithredu'r darpariaethau statws cyfartal sy'n ymwneud â deddfu a'r system gyfiawnder sy'n debyg i ddarpariaethau cyfatebol yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf

- (1) English and French are the official languages of Canada and have equality of status and equal rights and privileges in their use in all institutions of the Parliament and government of Canada.
- (2) English and French are the official languages of New Brunswick and have equality of status and equal rights and privileges as to their use in all institutions of the legislature and government of New Brunswick.

There is a further provision of the Canadian Constitution Acts (s.16.1) added in 1993 and applicable to the separate linguistic communities of NB which deals with broader issues. It provides:

The English linguistic community and the French linguistic community in New Brunswick have equality of status and equal rights and privileges, including the right to distinct educational institutions and such distinct cultural institutions as are necessary for the preservation and promotion of those communities.

This provision is reflected in NB legislation such as The Act Recognising the Equality of the Two Official Linguistic Communities in New Brunswick. The broad historical, social and political issues raised by these provisions were outside the scope of our enquiry; that enquiry was limited to the technical and practical means of implementing the equal status provisions relating to lawmaking and the justice system which have a parallel to corresponding provisions in the Welsh Language Act 1993 and the Government of Wales Act 1998.

Llywodraeth Cymru 1998.

Rydym yn edrych ar sefyllfa Québec ar wahân.

We deal with the position of Québec separately.

## **1. GWEITHREDU SYSTEM DEDDFU A CHYFIAWNDER DDWYIEITHOG**

1.1 Hanfod gweithredu system deddfu a chyfiawnder sy'n caniatáu yn ymarferol i'r ddwy iaith yng Nghanada gael eu trin yn gyfartal oedd datblygu pum proses wahanol ochr yn ochr:

- Datblygu cyrsiau yn ysgolion y gyfraith lle mae cyfraith gwlad wedi ei dysgu drwy gyfrwng y Ffrangeg yn ogystal â'r Saesneg;
- Datblygu dull o safoni termau cyfreithiol;
- Creu proses o gyd-ddrafftio deddfwriaeth yn y Ffrangeg a'r Saesneg;
- Hyfforddi barnwyr i fod mor rhugl ag sydd angen iddynt fod;
- Addasu ffurflenni a rhai trefniadau ar sail gymharol syml ac ymarferol fel y gwelwyd o'r hyn sydd wedi ei wneud yn y system cyfiawnder troseddol.

1.2 Gellir olrhain tarddiad pob un o'r datblygiadau hyn i'r 1970au hwyr pan wnaed newidiadau i'r Cyfansoddiad, deddfwriaeth a chyfres o benderfyniadau ar hawliau ieithyddol. Er enghraifft, ym Moncton NB ac yn

## **1. THE OPERATION OF A BILINGUAL SYSTEM OF LAW MAKING AND JUSTICE**

1.1 Fundamental to the operation of a system of law making and justice that accords in practice equal treatment to both languages in Canada has been the development in parallel of five different processes:

- The development of courses at law schools in which the common law has been taught in French as well as English;
- The development of a means of standardising legal terminology;
- The creation of a process of co-drafting legislation in French and English;
- The training of judges to the necessary proficiency;
- The adaptation on a relatively simple and pragmatic basis of forms and certain procedures as exemplified by what has been done in the criminal justice system.

1.2 The origin of each of these developments can be traced back to the late 1970s with changes to the Constitution, legislation and a series of decisions on linguistic rights. For example, at Moncton NB and at

Ottawa, dechreuodd y Prifysgolion ddysgu cyrsiau ar Gyfraith Gwlad yn Ffrangeg, gan ddarparu'r wybodaeth arbenigol ysgolheigaidd yr oedd ei hangen er mwyn dechrau ar y gwaith safoni a'r wybodaeth arbenigol i drin cyfraith gwlad yn Ffrangeg. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn unfryd o'r farn fod y berthynas rhwng dysgu'r gyfraith drwy gyfrwng y Ffrangeg, safoni termau, cyd-ddrafftio a hyfforddi yn holl-bwysig i lwyddiant system deddfu a chyfiawnder a oedd yn trin y Ffrangeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

1.3 Er ein bod yn ystyried pob un o'r pum proses yn ei thro, mae'n bwysig pwysleisio bod:

- pob un yn rhan annatod o'r ffordd y digwyddodd y newid ac ni allai unrhyw un fod wedi cyflawni'r newid ar ei phen ei hun;
- y cydweithrediad rhwng y gwahanol gyrff yn cael ei amlygu yn rôl y prifysgolion.

## 2 ADDYSGU CYFREITHWYR

### 2.1 Y rhai a welsom

- Ymwelsom ag Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Moncton lle cyfarfuom â'r Athro Gerard Snow, Cyfarwyddwr, *Centre de traduction et de terminologie juridique*, Serge Rousselle, Deon Ysgol y Gyfraith, Lynne Castonguay, cyfarwyddwr cynorthwyol y *Centre International de la common law en Français*.
- Yn Québec cyfarfuom â'r Athro Nicholas Kasirer, Cyfarwyddwr, *Centre du recherche en droit privé et comparé du Québec* ym Mhrifysgol McGill a Mtre Véronique Heron.

Ottawa, the Universities began to teach courses in the Common Law in French, providing the scholarly expertise necessary to begin the work of standardisation and the expertise to practice the common law in French. The evidence we received was unanimous in the view that critical to the success of a system of lawmaking and justice that treated French and English on a basis of equality was the interrelationship between the teaching of the law in French, the standardisation of terminology, co-drafting and training.

1.3 Although we consider each of the five processes in turn, it is important to stress:

- each is an integral part of the means by which change occurred and one could not have achieved change on its own;
- the co-operation between the various bodies is exemplified by the role of the universities.

## 2 THE EDUCATION OF LAWYERS

### 2.1 Those we saw

- We visited the Law School at Moncton University where we met Professor Gerard Snow, Directeur, *Centre de traduction et de terminologie juridique*, Serge Rousselle, Dean of the Law School, Lynne Castonguay, assistant director of the *Centre International de la common law en Français*.
- We met at Québec Professor Nicholas Kasirer, Directeur, *Centre du recherche en droit privé et comparé du Québec* at McGill University and Mtre Véronique Heron.

- Yn Ottawa cyfarfuom â'r Athro Martha Jackson a'r Athro Ruth Sullivan o Brifysgol Ottawa a derbyniasom ddeunydd gan yr Athro John Manwaring o Brifysgol Ottawa.

## **2.2 Sut y dechreuodd y gwaith**

2.2.1 Pan ddechreuwyd dysgu cyfraith gwlad drwy gyfrwng y Ffrangeg yn y 1970au hwyr ychydig iawn o ddeunyddiau oedd ar gael yn Ffrangeg. Dechreuodd y rhai a oedd yn dysgu'r cyrsiau ddarlithio yn Ffrangeg ond defnyddio deunyddiau a oedd ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, drwy ymgyswngolddo'r myfyrwyr â themau Ffrangeg a gwneud iddynt feddwl ac ysgrifennu yn Ffrangeg, addysgwyd cenhedlaeth a oedd yn meddwl yn naturiol yn Ffrangeg ac a fyddai'n trafod cyfraith gwlad yn naturiol yn Ffrangeg; dywedodd y rhai a fu'n fyfyrwr wrthym fod y termau Ffrangeg wedi aros yn eu cof. Sylweddolodd y rhai a oedd yn dysgu'r cyrsiau yn fuan iawn fod angen safoni'r termau er mwyn sicrhau cysondeb a dyma beth ysgogodd y prosiectau a ddilynodd.

## **2.2 Datblygu deunydd dysgu**

2.2.1 Dros y blynyddoedd mae deunydd dysgu wedi esblygu – cyfieithu achosion i'r Ffrangeg yn gyntaf a gwrslyfrau'n esblygu'n olaf (1994). Erbyn heddiw mae llyfrau poced ar gael sy'n cynnwys y cyfieithiad Ffrangeg o achosion cyfraith gwlad arweiniol a nifer o werslyfrau.

## **2.3 Y datblygiad cyffredinol**

2.3.1 Mae'r datblygiad wedi bod yn un graddol a naturiol dros gyfnod o 20

- We met at Ottawa Professor Martha Jackson and Professor Ruth Sullivan of the University of Ottawa and received materials from Professor John Manwaring of the University of Ottawa.

## **2.2 The way in which the work began**

2.2.1 When teaching of the common law in French began in the late 1970s there were very few materials available in French. Those who taught the courses started lecturing in French but using materials available only in English. However, by familiarising the students with terminology in French and making them think and write in French, they educated a generation that naturally thought about and would argue the common law in French; we were told by those who had been students that the terminology in French stuck in their minds. Very early on those teaching the courses realised the need to standardise the terminology to create consistency and this gave the impetus to the projects that followed.

## **2.2 The development of teaching materials**

2.2.1 Over the years teaching materials have evolved – the translation of cases into French coming first and text books being the last to evolve (1994). Today there are available pocket books that contain the French translation of leading common law cases and several textbooks.

## **2.3 The overall development**

2.3.1 The development has been gradual and organic over a 20 year period

mlynedd ac mae'n dal i ddatblygu. Y dystiolaeth a gawsom oedd ei bod yn hanfodol i weithrediad system a oedd yn trin yr ieithoedd ar y sail eu bod yn gyfartal bod cyfreithwyr yn cael eu haddysgu trwy gyrsiau a ddysgid yn Ffrangeg fel eu bod yn dod yn gyfarwydd â'i defnyddio fel iaith bob dydd y gyfraith; cymerodd amser maith i hyn ddangos ei ôl, ond o edrych yn ôl, roedd yn hanfodol.

### **3 SAFONI TERMAU CYFREITHIOL**

#### **3.1 Y rhai a welsom**

3.1.1 Buom yn trafod sut y safonwyd termau gyda'r rhai a gyfarfuom o'r Prifysgolion (adran 2 uchod), gyda'r cyrff deddfwriaethol (adran 4 isod) a chydag Andrée Duschene, Cydlynnydd Cenedlaethol y Rhaglen i Integreiddio'r ddwy iaith Swyddogol (POLAJ).

#### **3.2 Yr angen i safoni a tharddiad y prosiect**

3.2.1 Wrth i ysgolion y gyfraith ddechrau dysgu cyfraith gwlad drwy gyfrwng y Ffrangeg ac wrth i gyd-ddrafftio deddfwriaeth gymryd lle cyfieithu ac wrth i rai Taleithiau ddechrau cyfieithu'r ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli eisoes, daeth mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i safoni.

3.2.2 Dechreuodd y gwaith ym Moncton dan yr Athro Snow. Arweiniodd hyn at sefydlu'r Centre de traduction et de terminologie juridiques yng nghyfadrann y gyfraith yn 1979. Mae'r ganolfan wedi tyfu'n gyflym i fod yn awdurdod rhyngwladol ar ddefnyddio a hyrwyddo Ffrangeg ym meysydd y gyfraith a masnach. Ar wahân i weithio mewn cysylltiad agos â

and is still developing. The evidence we received was that it was essential to the operation of a system that treated the languages on a basis of equality to educate lawyers through courses taught in French so that they became accustomed to using it as an everyday language of the law; this had taken a long period of time to show its effect, but in retrospect it had been essential.

### **3 THE STANDARDISATION OF LEGAL TERMINOLOGY**

#### **3.1 Those we saw**

3.1.1 We discussed the way in which terminology had been standardised with those we met from the Universities (section 2 above), the legislatures (section 4 below) and with Andrée Duschene, National Co-ordinator of the Program for the Integration of both Official Languages (POLAJ).

#### **3.2 The need for standardisation and the origins of the project**

3.2.1 As law schools began to teach the common law in French and as co-drafting legislation took the place of translation and as some Provinces began to translate their existing legislation, there was a heightened awareness of the need for standardisation.

3.2.2 Work began at Moncton under Professor Snow. This led in 1979 to the establishment of the Centre de traduction et de terminologie juridiques within the faculty of law. The centre has grown quickly to become an international authority in the use and promotion of French in the fields of law and commerce. Apart from working closely with

POLAJ er mwyn datblygu'r gwaith safoni, mae'n darparu, ar sail fasnachol, wasanaethau cyfieithu cyfreithiol a gweinyddol arbenigol, (yng nghyswllt statudau, adroddiadau cyfraith, polisïau yswiriant ac is-ddeddfau corfforaethol ac yn y blaen), gwasanaethau drafftio a barn ynghylch ystyron geiriau. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant yn ogystal â deunyddiau dysgu er mwyn gwella sgiliau ieithyddol.

POLAJ in developing standardisation, it provides, on a commercial basis, specialised legal and administrative translation services (in respect of statutes, law reports, insurance policies and corporate by-laws etc), drafting services and opinions on the meanings of words. It also provides teaching as well as teaching materials for language skills improvement.

3.2.3 Dechreuodd y gwaith ym McGill yn y 1970au hwyr pan sefydlasant y Centre du recherche en droit privé et comparé du Québec lle maent yn edrych ar y berthynas rhwng iaith a'r gyfraith a themau cyfreithiol.

3.2.3 Work began in McGill in the late 1970s when they established the Centre du recherche en droit privé et comparé du Québec at which they examine the relationship between language and the law and legal terminology.

3.2.4 Yn 1981, sefydlwyd POLAJ gan y Llywodraeth Ffederal, trwy'r Adrannau Treftadaeth a Chyfiawnder. Ei amcanion oedd:

3.2.4 In 1981, the Federal Government through the Departments of Heritage and Justice established POLAJ. Its objectives were to:

- hybu a chyfrannu tuag at y gwaith o wella trefniadau gweinyddu cyfiawnder yn y ddwy iaith swyddogol;
- datblygu geirfa Ffrangeg sydd wedi'i safoni ar gyfer cyfraith gwlad;
- datblygu pecynnau ar gyfer cyfreithegwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau cyfreithiol i'r ddwy iaith swyddogol.

- promote and contribute to the improvement of the administration of justice in both official languages;
- develop a standardised French common law vocabulary;
- develop tools for jurists to ensure they can provide legal services to both official languages.

Mae gan POLAJ gysylltiadau cryf ac agos gyda'r farnwriaeth.

POLAJ has strong and close links with the judiciary.

3.2.5 Pwysleisiwyd wrthym fod sefydlu rhaglen er mwyn astudio a datblygu termau cyfreithiol wedi bod yn hanfodol. Er enghraifft, lle'r oedd gan y ddau destun yr un dilysrwydd cyfreithiol, yna rhaid oedd saernïo'r testunau wrth eu drafftio er mwyn

3.2.5 It was emphasised to us that it had been essential to set up a programme for the study and development of legal terminology. For example, where both texts had the same legal validity, then the texts had to be crafted during drafting to ensure that



sicrhau bod y naill a'r llall yn mynegi'r bwriad deddfwriaethol; yna rhaid oedd edrych ar y ddau er mwyn canfod y bwriad deddfwriaethol gan mai dim ond trwy edrych ar y ddau destun y gellid canfod yr ystyr. Disgrifiwyd hyn wrthym fel dehongli trwy ddeialog rhwng y ddau destun. Yn ystod y broses hon, roedd yn hanfodol bod termau'n cael eu datblygu'n ysgolheigaidd.

### **3.3 Gwaith y prifysgolion yn y broses safoni**

3.3.1 Mae gwaith yn cael ei wneud mewn pedair prif ganolfan – y canolfannau yn ysgolion y gyfraith ym Moncton, Ottawa, McGill a Choleg Prifysgol Boniface yn Winnipeg. Maent yn ymchwilio ac yn datblygu'r termau priodol.

3.3.2 Mae'r gwaith hwn yn y canolfannau hyn yn ysgolheigaidd ac yn fanwl. Pan astudir term arbennig, gwneir dadansoddiad o'r defnydd presennol. Ystyrir wedyn a yw'r defnydd presennol yn gyson ac yn briodol yng ngoleuni dadansoddiad cysyniadol cywir. Eglurwyd wrthym fod angen dealltwriaeth glir o'r cysyniad cyfreithiol a fynegir gan y term – rhoddwyd enghreifftiau i ni – "constructive trusts" a "resulting trusts", "constructive delivery", "constructive possession". Nid mater o gyfieithu oedd dewis y term cywir, ond yn hytrach o gyfleu'r cysyniad cyfreithiol; o ganlyniad, mae angen defnyddio nifer o wahanol gyfreithwyr, pob un â gwybodaeth arbenigol yn y maes cyfreithiol sy'n cael ei ystyried.

3.3.3 Mewn rhai achosion, bydd angen dewis rhwng y termau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer yr un

both expressed the legislative intention; then both had to be consulted to ascertain the legislative intention as the meaning could only be ascertained by consulting both texts. This was described to us as interpretation through a dialogue between both texts. In this process, it was essential that there be a scholarly development of terminology.

### **3.3 The work of the universities in the process of standardisation**

3.3.1 Work is done at four major centres – the centres at the law schools at Moncton, Ottawa, McGill and at the University College of Boniface at Winnipeg. They research and develop the appropriate terminology.

3.3.2 This work at these centres is scholarly and detailed. When a particular term is studied, an analysis of existing usage is made. Consideration is then given to whether the existing usage is consistent and apposite in the light of a proper conceptual analysis. It was made clear to us that it is necessary to have a clear understanding of the legal concept expressed in the term – we were given examples – constructive and resulting trusts, constructive delivery, constructive possession. Choosing the correct term was not a question of translation, but of encapsulating the legal concept; it is therefore necessary to use a number of different lawyers, each having a specialist expertise in the field of law under consideration.

3.3.3 In some cases, it will be necessary to chose between existing terms used for the same concept, to abandon

cysyniad, rhoi'r gorau i ddefnydd presennol gan gymryd ei fod yn anghywir neu greu newydddeiriau mewn rhai achosion – ystyron estynedig neu eiriau newydd. Crëir newydddeiriau trwy edrych nid yn unig ar y defnydd ieithyddol ond hefyd ar y defnydd diwylliannol yn yr iaith Ffrangeg.

3.3.4 Defnyddir sgiliau ieithyddol wedyn er mwyn adlewyrchu priodweddau'r iaith a sicrhau y bydd y term a ddewiswyd yn ennill ei blwyf.

3.3.5 Ymgynghorir wedyn ynghylch pa mor briodol a derbyniol yw'r term.

3.3.6 Er bod y gwaith ar y cyfan yn waith na all unrhyw un ar wahân i gyfreithwyr ei wneud gan ei fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cysyniad cyfreithiol sydd dan sylw, mae ieithyddion yn chwarae rhan bwysig gan nad yw cyfreithwyr o reidrwydd yn meddu ar y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen; profiad NB yw bod y gwaith gorau'n cael ei wneud trwy ddefnyddio ieithydd ochr yn ochr â'r tîm cyfreithiol. Er hyn, mae'n dasg wahanol iawn i gyfieithu – mae cyfieithydd yn darparu cyfieithiad yn unig; mae'n rhaid i'r gwaith sy'n cael ei wneud wrth safoni adlewyrchu'r cysyniad cyfreithiol. Rhoddwyd i ni enghreifftiau unwaith yn rhagor o gamgymeriadau a wnaethpwyd gan nad oedd y sawl a oedd yn dewis term cyfatebol yn yr iaith arall wedi deall y cysyniad – “vie commune” fel “living together”.

### 3.4 Gwaith POLAJ

3.4.1 Amcan POLAJ yw creu geirfa sy'n mynegi cysyniadau a rheolau cyfraith gwlad yn Ffrangeg; eu hathroniaeth yw creu geirfa a all esblygu yn yr un

existing usage as wrong or in some cases to create neologisms – extended meanings or new words. A neologism is derived by examining not only the linguistic but also the cultural usage in French.

3.3.4 Linguistic skills are then used to reflect the idiom of the language and to ensure that the term chosen will have an acceptance in practice.

3.3.5 Consultation is then undertaken as to the appropriateness and acceptability of the term.

3.3.6 Although the work is primarily a task that can only be carried out by lawyers as the work is centred upon an understanding of the legal concept involved, linguists play a significant role as lawyers might not be sufficiently skilled linguists; the experience of NB is that the best work is achieved by using a linguist alongside the legal team. However, it is quite a different task to translation – a translator provides only a translation; the work undertaken in standardisation must reflect the legal concept. We were again given examples of mistakes that had occurred because the concept had not been understood by the person choosing an equivalent term in the other language – “vie commune” as “iving together”.

### 3.4 The work of POLAJ

3.4.1 POLAJ's objective is to create a vocabulary that expresses common law concepts and rules in French; their philosophy is to create a

modd â'r eirfa Saesneg ar gyfer cyfraith gwlad, creu geirfa nad yw'n cael ei benthycu o gyfraith sifil Ffrangeg a defnyddio'r termau presennol, oni bai fod dadl yn eu cylch. Maent yn rhoi pwysigrwydd i'r ffactorau isod yn eu gwaith:

- Gan mai system cyfraith achosion yw cyfraith gwlad, rhaid i'r termau barchu penderfyniad y llysoedd a chael eu hintegreiddio i fframwaith cysyniadol cyfraith gwlad.
- Rhaid i'r termau fod yn fanwl gywir ac yn hyblyg, fel bod modd iddynt esblygu.
- Rhaid i'r termau fod yn dderbyniol i'r defnyddiwr neu ni fyddant byth yn cael eu defnyddio.

3.4.2 Dechreuodd POLAJ ar eu gwaith trwy wneud rhestr gyffredinol o dermau yr oedd angen eu safoni ym maes cyfraith eiddo – roedd yn cynnwys tua 12,000 o dermau. Trefnasant y rhain ar gyfer strwythur cyfraith gwlad e.e. eiddo personol ac eiddo tirol, termau cyfyng a thermau cysylltiedig. Cyfyngwyd y rhain i 6,000 o dermau y byddent yn eu hystyried. Trefnwyd y 6,000 o dermau hyn wedyn i grwpiau yn ôl meysydd y gyfraith.

3.4.3 Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan POLAJ trwy ddau bwyllgor a'i un aelod parhaol o staff, Andrée Duschesne, sy'n gweithredu fel cydlynnydd.

3.4.4 Mae'r Pwyllgor Technegol yn darparu dadansoddiad cyfreithiol ac ieithyddol ar gyfer pob term. Gwneir y gwaith gan y canolfannau yn y pedair prifysgol sy'n darparu aelodau'r pwyllgor, gyda phob aelod yn gyfrifol

vocabulary that can evolve in the same way as the common law vocabulary in English, to create a vocabulary that is not borrowed from French civil law and to utilise existing usage, unless questionable. In their work they attach importance to the following factors:

- As the common law is a case law system, terminology must respect the decision of the courts and be integrated into the conceptual framework of the common law.
- The terminology must be precise and flexible, so that it can evolve.
- The terminology must be acceptable to the user or it will never be used.

3.4.2 POLAJ proceeded initially by making a rough list of terms that needed to be standardised in the field of property law – it consisted of about 12,000 terms. They organised these into the structure of the common law e.g. personal property and real property, narrow terms and related terms. These were narrowed to 6,000 the terms that they would consider. These 6,000 terms were then organised into groupings according to the fields of law.

3.4.3 This work is carried out by POLAJ through two committees and its single permanent member of staff, Andrée Duschesne, who acts as the co-ordinator.

3.4.4 The Technical Committee provides a legal and linguistic analysis on each term. The work is done by the centres at the four universities who provide the members of the committee, each member being entrusted with one of

am un o'r grwpiau y rhannwyd y 6,000 o dermau iddynt. Mae'r rhain i gyd yn athrawon y gyfraith gan fod y gwaith yn galw am wybodaeth gyfreithiol arbenigol ynghylch y grwpiau. Gwneir gwaith ymchwil wedyn gan un o'r arbenigwyr ac fe'i cyflwynir i'r pwyllgor technegol. Yna paratwir ffeil yn cynnwys yr ymchwil a wnaethpwyd, y dadansoddiad cyfreithiol ac ieithyddol manwl, crynodeb byr ac argymhelliad.

3.4.5 Anfonir y ffeil sy'n cynnwys yr ymchwil a'r argymhelliad i'r Pwyllgor Safoni; mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r taleithiau, barnwyr a'r proffesiwn cyfreithiol. Nid oes iddo gadeirydd. Dewisir aelodau'r pwyllgor yn ofalus ac maent yn uchel iawn eu bri a'u parch ym maes y gyfraith. Dosberthir y ffeil i aelodau'r pwyllgor ac, os yw pawb yn unfryd o blaid derbyn yr argymhelliad, yna cymeradwyir y term yn ysgrifenedig heb ei drafod. Lle nad oes unfrydedd, yna bydd y pwyllgor yn trafod y term drwy gyfrwng cynhadledd ffôn. Mae hyn yn aml yn arwain at gytundeb, ond, lle nad oes cytundeb, bydd y pwyllgor yn derbyn pleidlais y mwyafrif neu'n gofyn i'r pwyllgor technegol wneud mwy o waith.

3.4.6 Nid yw'r penderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Safoni'n rhwymo'n gyfreithiol, ond mae ei benderfyniadau'n cael eu derbyn bron yn ddieithriad oherwydd statws aelodau'r Pwyllgor. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safoni'n amrywio o'r naill sesiwn i'r llall, gan fod angen i aelodaeth y Pwyllgor adlewyrchu'r wybodaeth arbenigol gyfreithiol yn y grŵp o dermau sy'n cael eu hystyried.

the groupings into which the 6,000 terms were subdivided. These are all law professors as the work requires specialised legal knowledge of the grouping. Research is then carried out by one of the specialists and submitted to the technical committee. A file containing the research carried out, the detailed legal and linguistic analysis, a brief summary and a recommendation is then prepared.

3.4.5 The file containing the research and the recommendation is sent to the Standardisation Committee; this Committee is comprised of representatives of the provinces, judges and the legal profession. It has no chairman. The members of the committee are carefully chosen and are of very high standing and respect in the law. The file is circulated to the members of the committee and, if there is unanimity in the acceptance of the recommendation, then the term is approved in writing without discussion. Where there is no unanimity, then the term is discussed by the committee through a telephone conference. This often results in agreement, but, where there is no agreement, then the committee votes by majority or requests further work be done by the technical committee.

3.4.6 The decision made by the Standardisation Committee is not legally binding, but their decisions are almost invariably accepted because of the standing of the members of the Committee. The composition of the Standardisation Committee will vary from session to session, as it is necessary for the composition of the Committee to reflect the relevant specialist legal expertise in the group of terms being considered.

3.4.7 Cyllideb fechan sydd ar gyfer y gwaith; gwneir y rhan fwyaf o waith y pwyllgor technegol yn ddi-dâl gan yr aelodau o'r Prifysgolion, gyda'r cyfryw waith yn cael ei ystyried yn y cyllid a dderbynnir gan y Prifysgolion.

3.4.7 The work is carried out on a small budget; the main work of the technical committee is done without charge by the members from the Universities, such work being taken into account in the funding received by the Universities.

### 3.5 Cyhoeddi

### 3.5 Publication

3.5.1 Mae'r Prifysgolion a POLAJ yn cyhoeddi eu gwaith.

3.5.1 The Universities and POLAJ publish their work.

- Mae Moncton yn cyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau wedi eu trefnu yn ôl pwnc dan y teitl *The Vocabulary of the Common Law a Lexique anglais-français de la common law*. Eu prif waith parhaus yw *Juriterm*, banc data dwyieithog ar gyfer cyfraith gwlad; mae enghraifft i'w gweld yn atodiad 1. Mae hwn bellach yn cael ei gyhoeddi ar CD ac mae modd tanysgrifio iddo. Cyhoeddir fersiynau wedi eu diweddarau bob dwy flynedd. Mae ganddynt safle ar y we ([www.umoncton.ca/cttj](http://www.umoncton.ca/cttj)) ac maent yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod *Juriterm* ar gael ar y rhyngwyd.

- Moncton publishes a series of publications organised by subject matter under the title *The Vocabulary of the Common Law and Lexique anglais-français de la common law*. Its main ongoing work is *Juriterm* a bilingual data bank of the common law; an example is at annex 1. This is now published on CD and made available by subscription. Updates are published every two years. They have a website ([www.umoncton.ca/cttj](http://www.umoncton.ca/cttj)) and are considering how best to make available *Juriterm* on the internet.

- Mae POLAJ yn cyhoeddi ei waith mewn cyfres o eiriaduron yn dwyn y teitl *Canadian Common Law Dictionary*. Mae enghraifft o'r geiriadur ar gyfraith eiddo ac ystadau i'w gweld yn atodiad 2. Mae cost cyhoeddi copiâu caled yn uchel iawn ac o ganlyniad mae ganddynt gynlluniau i gyhoeddi eu holl waith ar y rhyngwyd yn y dyfodol. Cyfeiriad eu safle ar y we yw [www.pajlo.org](http://www.pajlo.org).

- POLAJ publishes its work in a series of dictionaries entitled *Canadian Common Law Dictionary*. An example from the dictionary on the law of property and estates is at annex 2. The cost of publication in hard copy is very high and they are therefore planning to publish all their work in future on the internet. Their web site is [www.pajlo.org](http://www.pajlo.org).

### 3.6 Safoni a'r termau sydd mewn testunau sy'n bodoli'n barod

### 3.6 Standardisation and the terms in existing texts.

3.6.1 Gan mai dim ond yn y 1970au hwyr y dechreuodd y gwaith hwn, mae'r termau wedi eu cyfieithu'n anghywir neu'n anghyson neu'n amhriodol

3.6.1 As this work was begun only in the late 1970s, there is a large body of existing legislation and documentation where terms are

mewn cyfran helaeth o'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau sy'n bodoli eisoes. Fel y dywedwyd, ystyrir y defnydd a wneir yn ystod y broses safoni, ond mae'n anorod bod problemau gyda thestunau sy'n bodoli'n barod. Mae NB ar fin dechrau adolygu ei statudau a bydd yn defnyddio hyn fel cyfle i gywiro'r ddeddfwriaeth a mabwysiadu'r termau sydd wedi'u safoni. Hyd y cyfle hwn, mae drafftwy'r deddfwriaeth a chyfieithwyr wedi wynebu'r benbleth o barhau i ddefnyddio termau amhenodol neu anghywir a ddefnyddiwyd mewn deddfwriaeth gynharach wrth gynhyrchu deddfwriaeth sy'n diwygio, neu ddefnyddio termau newydd, ond cywir, ar gyfer y ddeddfwriaeth sy'n diwygio er eu bod yn anghyson â'r ddeddfwriaeth wreiddiol. Pwysleisiwyd wrthym ei bod felly'n bwysig iawn dechrau safoni cyn gynted ag y bo modd er mwyn osgoi'r problemau hyn.

either translated wrongly or inconsistently or inappropriately. As we have said, usage is taken into account in the standardisation process, but it is inevitable that there are problems with existing texts. NB is about to embark upon the revision of its statutes and will use that as an opportunity to correct the legislation and adopt the standardised terms. Until this opportunity, legislative draftsmen and translators have faced the difficulty of continuing to use imprecise or incorrect terms used in earlier legislation when producing amending legislation or using new, but correct, terms for the amending legislation that are not consistent with the original legislation. It was emphasised to us that it is therefore of great importance to embark on standardisation as early as possible to avoid these problems.

#### **4. Y BROSES DDEDDFWRIAETHOL**

##### **4.1 Y rhai a welsom**

4.1.1 Cawsom drafod defnyddio dwy iaith wrth ddrafftio deddfwriaeth gyda'r canlynol:

- yn Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Adran Gyfiawnder Ffederal Canada, Mr Robert Bergeron Q.C., Uwch-gwnsler Cyffredinol, Mr Joseph Melaschenko, Cwnsler Deddfwriaethol a Mr André Labelle, Prif Ieithydd Cyfraith a Chwnsler Deddfwriaethol;
- yng Nghynulliad Deddfwriaethol New Brunswick, yr Anrhydeddus Bradley Green C.F., Twrnai Cyffredinol a'r Gweinidog Gyfiawnder, ei ddirprwy, Mr Roger Bilodeau, Mrs Judith Keating, Prif Gwnsler Deddfwriaethol,

#### **4. THE LEGISLATIVE PROCESS**

##### **4.1 Those whom we saw**

4.1.1 We were able to discuss the use of two languages in the drafting of legislation with the following:

- at the Office of Legislative Counsel of the Federal Department of Justice for Canada, M. Robert Bergeron Q.C., Senior General Counsel, Me Joseph Melaschenko, Legislative Counsel and M. André Labelle, Chief Jurilinguiste and Legislative Counsel;
- at the Legislative Assembly of New Brunswick, the Honourable Bradley Green Q.C., Attorney General and Minister of Justice, his deputy, Mr Roger Bilodeau, Mrs Judith Keating, Chief Legislative Counsel, Mrs Lise

Mrs Lise Villeneuve, leithydd Cyfraith, Gwasanaethau Deddfwriaethol Diwygio Statudau, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol;

- yng Nghynulliad Cenedlaethol Québec, Me Jeanne Proulx, Légiste à la Direction de la recherche et de la législation ministérielle, Me Pierre Audet, Directeur de la Direction de la recherche et de la législation ministérielle, Me Louis Sormany, adjoint au secrétaire général associé à la Législation, Conseil exécutif a Mme Lise Grégoire-Bissonnette, responsable de la division de la traduction des projets de loi et des lois.

#### **4.2 Drafftio deddfwriaeth**

4.2.1 Roedd y profiad o ddrafftio deddfwriaeth yn amrywio o'r naill gorff deddfwriaethol i'r llall. Mae'r dull a ddefnyddir yn Québec yn wahanol iawn i'r un a ddefnyddir gan y Senedd Ffederal a Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick.

#### **Y sefyllfa yn Québec**

4.2.2 Roedd adran 133 Deddf Cyfansoddiad Canada 1867 yn darparu ar gyfer llunio deddfwriaeth gan Senedd Canada a chorff deddfwriaethol Québec drwy gyfrwng y Ffrangeg a'r Saesneg. Felly, roedd y deddfwriaeth yn cael ei gwneud yn ddwyieithog gan gorff deddfwriaethol Québec ac yn cael ei chyhoeddi gyda'r ieithoedd ar dudalennau ar wahân ond bod y testunau cyfatebol i'w gweld gyferbyn â'i gilydd. Yn 1942, addaswyd y ffurf er mwyn sicrhau bod y ddwy iaith yn ymddangos ar yr un dudalen mewn colofnau.

Villeneuve, Jurlinguist, Statutes Revision Legislative Services, Ministry for Justice and the Office of the Attorney General;

- at the National Assembly of Québec, Me Jeanne Proulx, Légiste à la Direction de la recherche et de la législation ministérielle, Me Pierre Audet, Directeur de la Direction de la recherche et de la législation ministérielle, Me Louis Sormany, adjoint au secrétaire général associé à la Législation, Conseil exécutif and Mme Lise Grégoire-Bissonnette, responsable de la division de la traduction des projets de loi et des lois.

#### **4.2 Drafting of legislation**

4.2.1 The experience of legislative drafting differed between each legislature. The approach in Québec is significantly different from that of the Federal Parliament and the Legislative Assembly of New Brunswick.

#### **The position in Québec**

4.2.2 Section 133 of the Canadian Constitution Act 1867 provided for the legislation to be made by the Canadian Parliament and the Québec legislature in both the French and the English language. Thus, legislation was made bilingually by the Québec legislature and published with the languages occupying separate pages but equivalent texts appearing opposite each other. In 1942, the format of publication was modified to ensure that both languages appeared on the same page in column format.

4.2.3 Yn 1977, cyhoeddwyd *la Charte de la langue Française* yn Québec. Roedd yn datgan mai Ffrangeg oedd priod iaith poblogaeth Québec yr oedd y mwyafrif ohoni'n siarad Ffrangeg ac mai hi oedd yr offeryn a oedd wedi rhoi i'r boblogaeth honno ei hunaniaeth. Roedd yn gwneud y Ffrangeg yn iaith swyddogol Québec ac yn iaith y Llywodraeth a'r Gyfraith (yn ogystal ag iaith arferol, dydd i ddydd gwaith, hyfforddiant, cyfathrebu, masnach a busnes) yn Québec. Roedd yn datgan bod corff deddfwriaethol Québec yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn gyda thegwch a meddwl agored, gan barchu sefydliadau'r gymuned Saesneg ei hiaith yn Québec. Bryd hyn, ailddechreuwyd cyhoeddi cyfraith Cynulliad Cenedlaethol Québec yn y ffurf a ddefnyddid cyn 1942, fel bod y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Ffrangeg yn cael eu cyhoeddi'n gwbl ar wahân.

4.2.4 Ar ôl 1977, cynhyrchwyd deddfwriaeth sylfaenol yn ddwyieithog, ond is-ddeddfwriaeth yn Ffrangeg yn unig ar y sail nad oedd is-ddeddfwriaethau'n rhan o gylch gorchwyl adran 133 yn Neddf 1867 yng nghyswllt Québec. Daeth Goruchaf Lys Canada i'r casgliad yn 1979 y dylai is-ddeddfwriaeth fod yn ddwyieithog yn ôl y gyfraith a gweithredwyd y penderfyniad hwn yn Québec. Felly y mae wedi bod ers hynny.

4.2.5 Mae Mesurau drafft deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Québec bob amser yn cael eu drafftio yn Ffrangeg gan y cyfreithwyr drafftio yn swyddfa'r Direction de la recherche et de la législation ministérielle a'r Direction

4.2.3 In 1977, *la Charte de la langue Française* was promulgated in Québec. It recited that the French language was the distinctive language of a people that was in the majority French-speaking and was the instrument by which that people had articulated its identity. It made the French language the official language of Québec and the language of Government and the Law (as well as the normal and everyday language of work, instruction, communication, commerce and business) in Québec. It declared that the legislature of Québec intended to pursue these objectives in a spirit of fairness and open-mindedness, respectful of the institutions of the English-speaking community of Québec. At this point in time, the practice of publishing the law of the National Assembly of Québec reverted to the format utilised prior to 1942, so that the English language version is published entirely separately from the French language version.

4.2.4 After 1977, primary legislation was produced bilingually, but secondary legislation in French only on the basis that secondary legislation was not within the remit of section 133 of the 1867 Act as regards Québec. A decision of the Supreme Court of Canada in 1979 concluded that secondary legislation ought by law to be bilingual and this decision was implemented in Québec. This has since been the case.

4.2.5 Draft Bills of primary legislation for the National Assembly for Québec is always initially drafted in French by the drafting lawyers at the office of the Direction de la recherche et de la législation ministérielle and the Direction de la Législation



de la Législation gouvernementale du ministère de la Justice du Québec. Cynorthwyr y cyfreithwyr drafftio yn y Ministère de la Justice yn eu gwaith gan ieithyddion, tri ohonynt yn ieithyddion cyfraith, ac un yn ieithydd cyfraith Saesneg. Dros y blynyddoedd mae'r ieithyddion cyfraith unigol wedi datblygu gwybodaeth arbenigol unigol mewn gwahanol feysydd e.e. yr amgylchedd, y dechnoleg newydd. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft wedyn yn cael ei throsglwyddo i'r adran gyfieithu sydd ynghlwm wrth y Cynulliad Cenedlaethol i gael ei chyfieithu. Mae 9 cyfieithydd yn yr adran gyfieithu a'u hunig orchwyl yw cyfieithu mesurau drafft yn yr amrediad llawn o bynciau. Ar ôl i fersiwn Saesneg y mesur drafft gael ei gynhyrchu mae'n cael ei anfon i'w gyhoeddi a darllenir y profleuni wedyn gan dri unigolyn; dau yn darllen y testunau Ffrangeg a Saesneg yn uchel ac un yn darllen ar draws y ddau destun. Os bydd cyfieithwyr yn cael anhawster i ddeall ystyr darpariaeth mewn mesur drafft, nid yw'n arferol i'r cyfieithwyr ymgynghori â'r cyfreithiwr drafftio Ffrengig. Yn gyffredinol, bydd cyfieithwyr yn gwneud eu hymchwil eu hunain i gynnwys y mesur drafft y maent yn gweithio arno. Nid yw'r patrwm yn Québec yn darparu ar gyfer defnyddio cyfreithwyr Saesneg. Mae'r Ministère de la Justice hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyfieithu'n fewnol yn y Weinyddiaeth.

#### **Y sefyllfa yn Ottawa a New Brunswick**

4.2.6 Fel y nodwyd yn Adroddiad SCC 2000 mae'r Llywodraeth Ffederal wedi bod yn cyd-ddrafftio'i Deddfau Seneddol er 1978. Mae'r Adran Gwasanaethau Ddeddfwriaethol dan

gouvernementale du ministère de la Justice du Québec. The drafting lawyers at the Ministère de la Justice are assisted in their work by linguists three of whom are jurilinguists, one being an anglophone jurilinguist. Over the years the individual jurilinguists have developed individual expertise in different areas e.g. environment, new technologies. The draft legislation is then passed to the translation section attached to the National Assembly for translation. The translation section is made up of 9 translators whose sole mission is to translate draft bills in the full range of subject matters. Upon production of the English version of the draft bill it is remitted for publication and then proof-read by three individuals; two reading aloud the French and English texts and one reading across both texts. If difficulties are encountered by translators in understanding the meaning of a provision within a draft bill, there is no tradition established whereby translators will consult the French drafting lawyer. Generally, translators will carry out their own research into the subject matter of the draft bill on which they are working. The Québec model does not provide for the involvement of anglophone lawyers. The Ministère de la Justice is also responsible for the production of subordinate legislation which is translated in-house at the Ministry.

#### **The position in Ottawa and New Brunswick**

4.2.6 As documented in the OCG report 2000 the Federal Government has been co-drafting its Acts of Parliament since 1978. The Legislative Services Department

gyfarwyddyd y Prif Gwnsler Deddfwriaethol yn New Brunswick wedi bod yn drafftio Deddfau Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick a'r holl is-ddeddfwriaethau ar y cyd ers y 1980au. Cyn dechrau cyd-ddrafftio, roedd testunau cyfreithiol yn Ottawa ac yn New Brunswick yn cael eu drafftio yn Saesneg (y testun gwreiddiol) ac yn cael eu cyfieithu i'r Ffrangeg (y testun targed). Roedd yn anorfod bod y testun gwreiddiol yn cael ei ystyried fel y testun mwyaf awdurdodol a'r cyfan a wnâi cwynion ynghylch ansawdd testun targed y deddfwriaeth oedd ategu'r farn hon. Mabwysiadwyd y trefniadau cyd-ddrafftio fel ffordd o drafftio deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gan y ddau destun awdurdod cyfartal. Yn Ottawa a New Brunswick, roedd y cyfreithwyr a oedd yn ymwneud â'r gwaith yn credu bod cyd-ddrafftio yn creu gwell deddfwriaeth gan ei bod yn fyrrach ac yn gliriach na'r hyn a gynhyrchid drwy'r broses flaenorol lle'r oedd y testun Saesneg yn cael ei gyfieithu i'r Ffrangeg. Mae dwyieithrwydd yn wahanol i gyfieithu gan fod dwyieithrwydd yn sefydlu'r egwyddor bod gan y ddwy iaith statws cyfartal; mae cyfieithu yn israddio'r iaith leiafrifol yn gyfreithiol ac yn ymarferol. Mae cyd-ddrafftio, lle mae dau fersiwn y drafft yn esblygu yr un pryd, yn arwain yn gyfreithiol ac yn ymarferol, at yr egwyddor bod y ddwy iaith yn gyfartal. Mae'r ddau fersiwn yn ddilys heb unrhyw amheuaeth.

#### *Rôl yr ieithydd cyfraith*

4.2.7 Cydnabuwyd yn y ddau gyd-destun bod ar gyfreithwyr angen cefnogaeth er mwyn sicrhau'r safonau ieithyddol uchaf wrth drafftio deddfwriaeth. Er bod cyfreithwyr drafftio yn arbenigwyr yn y gyfraith ac yn y defnydd o iaith i

under the direction of the Chief Legislative Counsel in New Brunswick have been co-drafting Acts of the Legislative Assembly of New Brunswick and all subordinate legislation since the 1980s. Prior to the adoption of co-drafting, legal texts in both Ottawa and New Brunswick were drafted in English (the source text) and translated into French (the target text). The source text was inevitably regarded as the more authoritative text and complaints about the quality of the target text of legislation served only to reinforce this view. Co-drafting was adopted as a means of legislative drafting to ensure that both texts had equal authority. In Ottawa and New Brunswick, the lawyers involved believed co-drafting to produce better legislation in the sense that it is shorter and clearer than that produced through the previous process by which the English text was simply translated into French. Bilingualism differs from translation in that the former gives effect to the principle that the two languages are of equal status; the latter subordinates the minority language in law and in practice. Co-drafting, in which the two versions of the draft evolve simultaneously, gives effect in law and practice to the principle that the two languages are equal. Both versions are unarguably authentic.

#### *The role of the jurilinguist*

4.2.7 In both contexts it had been recognised that lawyers require support in ensuring that the highest linguistic standards are maintained in the drafting of legislation. Although drafting lawyers are expert in the law

fynegi'r gyfraith, daeth yn amlwg yn fuan ar ôl mabwysiadu'r trefniadau cyd-ddrafftio, bod ar gyfreithwyr drafftio angen cyngor arbenigol ar gystrawen brawddegau a chymorth wrth ddefnyddio termau arbenigol (cyfreithiol ac eraill) yn enwedig wrth fynegi cysyniadau cyfraith gwlad drwy gyfrwng y Ffrangeg. Diwallwyd yr angen hwn, yn Ottawa ac yn New Brunswick, trwy greu swyddi *ieithyddion cyfraith*.

and in the use of language to express the law, upon the adoption of co-drafting, it soon emerged that drafting lawyers required expert advice on sentence construction and assistance with use of specialist terminology (legal and otherwise) particularly when expressing common law concepts through the medium of the French language. This need has been met, both in Ottawa and New Brunswick, by the creation of the post of *jurilinguist*.

4.2.8 Yn fyr, mae'r ieithydd cyfraith yn ymwneud â dadansoddiad ieithyddol o iaith y gyfraith.

4.2.8 Broadly, the jurilinguist is a person who engages in a linguistic analysis of the language of the law.

4.2.9 Yn Ottawa, yn ystod y gwaith o baratoi'r Mesur drafft ac yn y cyfnod ar ôl ei baratoi, ond cyn ei osod gerbron y Senedd, bydd ieithyddion cyfraith yn cyflawni'r swyddogaethau isod:

4.2.9 In Ottawa, during and after preparation of the draft Bill but before it is laid in Parliament, jurilinguists will carry out the following functions:

- archwilio ansawdd ieithyddol y testunau yn y ddwy iaith, ar wahân;
- cynghori ynghylch y defnydd o arddull, termau arbenigol a themau cyfreithiol;
- sicrhau cyfaddaster diwylliannol, ieithyddol a chyfreithiol y testunau yn y ddwy iaith;
- darparu cyngor parhaus ynghylch pwyntiau gramadegol a chystrawen brawddegau i gyfreithwyr drafftio ar ffurf bwletin.

- check on the linguistic quality of the texts in each language, separately;
- advise on use of style, specialist and legal terminology;
- ensure the cultural, linguistic and legal compatibility of the texts in both languages;
- provide ongoing advice on points of grammar and sentence construction to drafting lawyers in bulletin format.

4.2.10 Mae'r Llywodraeth Ffederal wedi bod yn cyflogi ieithyddion cyfraith ers 3 blynedd. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cael ei arwain gan André Labelle a cheir yno 8 ieithydd cyfraith Ffrangeg a 3 ieithydd cyfraith Saesneg. Mae un ieithydd cyfraith ar gyfer pob 10 cyfreithiwr drafftio.

4.2.10 Jurilinguists have been employed by the Federal Government for 3 years. The team is currently led by André Labelle who leads a team of 8 francophone jurilinguists and 3 anglophone jurilinguists. There is one jurilinguist to 10 drafting lawyers.

4.2.11 Mae prinder cymharol swyddogion cyfarwyddo Ffrangeg eu hiaith ynghyd â'r ffaith fod mwy o siaradwyr Saesneg yn y Senedd yn golygu bod y testun Saesneg yn cael ei archwilio'n fanylach cyn ac ar ôl i Fesur drafft gael ei osod gerbron y Senedd. Er mwyn sicrhau bod testun Ffrangeg Mesurau o'r un ansawdd â'r testun Saesneg a'i fod yn cael ei archwilio yr un mor fanwl, cyflogir mwy o ieithyddion cyfraith Ffrangeg gyda'r bwriad o sicrhau bod holl destunau Ffrangeg Mesurau drafft yn cael eu harchwilio'n drylwyr cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

4.2.12 Yn gyffredinol, penodir yr ieithyddion cyfraith ar gyfer gwahanol feysydd arbenigol er mwyn iddynt ddatblygu gwybodaeth arbenigol am bynciau a sgiliau ymchwil arbenigol yn y meysydd hynny.

4.2.13 Mae Legislative Services Department New Brunswick wedi penodi ei ieithydd cyfraith cyntaf yn ddiweddar, swydd sy'n cael ei hystyried yn allweddol i isadeiledd cefnogi'r drafftswyr deddfwriaethol ac er mwyn sicrhau cywirdeb ieithyddol testunau'r deddfwriaeth yn y ddwy iaith. Mae Llywodraeth New Brunswick yn dechrau ar brosiect tair blynedd er mwyn cydgrynhoi ei holl deddfwriaeth. Dyma'r ymarfer cyntaf o'i fath er 1973. Mae'r iaith a ddefnyddir i fynegi'r gyfraith yn ffactor pwysig yn y prosiect cydgrynhoi. Bydd yr ieithydd cyfraith, a fydd yn ymwneud â'r prosiect hwn hyd nes y bydd wedi dod i ben, yn sicrhau y bydd datblygiadau mewn terminoleg er 1973 yn cael eu hadlewyrchu'n gyson yn y statudau sydd wedi eu cydgrynhoi. Bydd yr ieithydd cyfraith hefyd yn adolygu'r canllaw drafftio deddfwriaeth ar gyfer New Brunswick er mwyn i'r drafftiau gynnwys

4.2.11 The relative lack of francophone instructing officers and the greater presence of anglophones in Parliament results in greater scrutiny being paid to the English language text both before and after a draft Bill is laid in Parliament. To ensure that the French language text of Bills is of comparable quality to the English language text and is accorded an equivalent level of scrutiny, a greater number of francophone jurilinguists are employed to ensure that all French language texts of draft Bills are scrutinised thoroughly before they are laid in Parliament.

4.2.12 Generally, the jurilinguists are assigned into different areas of expertise so that they develop specialist knowledge of subject fields and expert research skills in those fields.

4.2.13 The Legislative Services Department of New Brunswick has recently appointed its first jurilinguist a position which is viewed as key to the support infrastructure for legislative draftspersons and for ensuring the linguistic integrity of both language texts of legislation. The Government of New Brunswick is embarking on a three year project to consolidate all of its legislation. This is the first such exercise since 1973. The language through which the law is expressed is a major factor in the consolidation project. The jurilinguist, who will be engaged on this project for its duration, will ensure that developments in terminology since 1973 will be consistently reflected in the consolidated statutes. The jurilinguist will also revise the legislative drafting guide for New Brunswick to reflect a truer French idiom in drafting.

priodweddau mwy Ffrengig.

#### *Hyfforddiant Ieithyddion Cyfraith*

4.2.14 Mae proffesiwn yr ieithyddion cyfraith yn un cymharol newydd. Mae rhywfaint o le i ddadlau a ddylai'r pwyslais fod ar yr elfen *ieithyddol* ynteu ar yr elfen *gyfreithiol*.

4.2.15 Mae gan yr ieithyddion cyfraith a gyflogir gan y Llywodraeth Ffederal a chan yr Adran Gwasanaethau Deddfwriaethol yn New Brunswick gymwysterau amrywiol. Yn Ottawa, mae rhai yn gyfreithwyr sydd hefyd wedi astudio ieithyddiaeth ac sydd wedi dewis arbenigo yn iaith y gyfraith; mae gan eraill gefndir ieithyddol ond mae'n bosib fod ganddynt hefyd faes arbennig arall neu brofiad helaeth o gyfieithu deunydd cyfreithiol.

4.2.16 Yn New Brunswick, mae'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer ieithydd cyfraith (yn atodiad 3) yn galw am radd ieithyddol ac aelodaeth o gorff iaith proffesiynol. Cyfeirir at radd yn y gyfraith fel caffaeliad yn hytrach na rhywbeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

4.2.17 Yn y naill achos a'r llall, darperir hyfforddiant yn gyffredinol yn y fan a'r lle. Mae rhai ieithyddion cyfraith ar y lefel Ffederal nad oes ganddynt hyfforddiant cyfreithiol yn dilyn hyfforddiant cyfreithiol yn eu hamser eu hunain. Telir am hyn gan y gwasanaeth sifil. Mae'r ieithyddion cyfraith yn credu bod yr hyfforddiant yn gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau cyfreithiol.

4.2.18 Yn ogystal â'r *ieithydd cyfraith*, mae Cangen Gwasanaeth Deddfwriaethol yr Adran Gyfiawnder yn New Brunswick yn cyflogi *golygyddion*.

#### *Training of Jurilinguists*

4.2.14 The profession of jurilinguist is a relatively new one. There is some scope for debate as to whether the emphasis in the word *jurilinguist* should fall on the *jurist* or on the *linguist*.

4.2.15 The jurilinguists employed by the Federal Government and the Legislative Services Department in New Brunswick have diverse qualifications. In Ottawa, some are lawyers who have also studied linguistics and have chosen to specialise in the language of the law; others have a linguistic background but may also have another specialism or have considerable experience of legal translation.

4.2.16 In New Brunswick, the job description for a jurilinguist (at annex 3) calls for a linguistic degree and membership of a professional language body. Possession of a law degree is referred to as being an asset rather than a prerequisite for the post.

4.2.17 In both cases, training is generally provided in situ. Some jurilinguists on the Federal level who do not have legal training are undertaking legal training in their own time. This is paid for by the civil service. Jurilinguists believe that the training improves their knowledge and understanding of legal concepts.

4.2.18 In addition to the *jurilinguist*, the Legislative Services Branch of the Department of Justice in New Brunswick employs *editors*. Editors

Mae golygyddion yn cyfuno rolau Rheolwr Cyhoeddi (40%), Golygydd Deddfwriaethol (40%) a Gweinyddydd (20%).

combine the roles of Publication Manager (40%), Legislative Editor (40%) and Administrator (20%).

4.2.19 Yn eu rôl gyhoeddi mae golygyddion yn gyfrifol am gyhoeddi *The Royal Gazette* bob wythnos, cydgrynodau dalen rydd o ddeddfau a rheoliadau bob chwarter, cyfrolau rhwymedig o ddeddfau a rheoliadau bob blwyddyn, diweddariadau ar gyfer Rheolau'r Llys a'r mynegai blynyddol i *The Royal Gazette* bob blwyddyn.

4.2.19 In their publications role editors are accountable for publishing *The Royal Gazette* (weekly), loose-leaf consolidations of acts and regulations (quarterly), bound volumes of acts and regulations (annually), updates for the Rules of Court and the annual index for *The Royal Gazette* (annually).

4.2.20 Fel golygyddion deddfwriaethol, mae'n ofynnol iddynt ddarllen proflenni deddfau a rheoliadau, Rheolau'r Llys, mesurau, mynegeion tablau, atodlenni a hysbysiadau sy'n cael eu cyhoeddi yn *The Royal Gazette*. Maent yn edrych ar ddeddfau a rheoliadau er mwyn nodi gwallau gramadegol, argraffyddol, arddulliol a ffeithiol ac unrhyw anghysonderau rhwng fersiynau'r ddwy iaith nad ydynt wedi eu nodi'n barod gan yr ieithyddion cyfraith a'r cyfreithwyr.

4.2.20 As legislative editors, they are required to proof-read acts and regulations, Rules of Court, bills, tables indexes, schedules and notices published in *The Royal Gazette*. They examine acts and regulations to identify grammatical, typographical, stylistic and factual errors and any discrepancies between the two language versions not previously identified by the jurilinguists and lawyers.

4.2.21 Yn eu rôl weinyddol mae golygyddion yn cydlynu'r gwaith o gynhyrchu ac argraffu mesurau'r Cynulliad Deddfwriaethol trwy eu darlleniadau amrywiol er mwyn cwrdd â'r dyddiadau argraffu penodedig.

4.2.21 In their administrative role editors co-ordinate the production and printing of Legislative Assembly bills through their various readings to meet the printing deadlines.

4.2.22 Gan fod Argraffwyr y Frenhines yn goruchwyllo gwaith y golygyddion yn uniongyrchol, mae'r pwyslais ar gyhoeddi, darllen proflenni a chwblhau gwaith cyn dyddiadau penodedig yn hytrach na golygu manwl a chynhwysfawr. Mae hefyd wedi bod yn anodd recriwtio pobl sydd â sgiliau golygyddol yn ogystal â sgiliau darllen proflenni.

4.2.22 Because the Queen's Printer has direct supervision over the work of editors, the emphasis is on publication, proof-reading and meeting deadlines rather than on detailed and comprehensive editing. It has also been difficult to recruit people with editorial as well as proof-reading skills.

4.2.23 Er bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng

4.2.23 Although there is a degree of

sgiliau'r ieithydd cyfraith a sgiliau'r golygydd, mae gan yr ieithydd cyfraith, yn ôl y diffiniad, fwy o gefndir cyfreithiol ac ieithyddol na'r golygydd. Mae rôl olygu'r ieithydd cyfraith ei hun yn fwy cynhwysfawr ac yn cael ei chyflawni'n gynharach yn y broses deddfwriaethol. Yn ogystal â nodi'r mathau o wallau y byddai'r golygydd hefyd yn edrych amdanynt, mae'r ieithydd cyfraith yn ceisio sicrhau bod y confensiynau drafftio deddfwriaethau sydd mewn grym yn cael eu dilyn ac mae ganddo ef neu hi ran lawer mwy i'w chwarae gan fod disgwyl iddo/iddi gynnig cyngor wrth drafod unrhyw ddiffygion neu anghysonderau yn y testun ac unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â themau gyda drafftwyf.

## **5. HYFFORDDIANT AC ADDYSG BARHAUS AR GYFER BARNWYR**

5.1 Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn delio gyda'r rhaglen ar gyfer addysg barhaus a hyfforddiant i farnwyr a chyda'u hyfforddiant ieithyddol yn fwyaf arbennig. Ond, fel sy'n cael ei nodi yn ein Hargymhellion, mae'n berthnasol iawn i waith y Gwasanaeth Sifil.

### **5.2 Y rhai a welsom**

- Ymwelsom â'r Sefydliad Barnwrol Cenedlaethol yn Ottawa a chyfarfuom â'r Cyfarwyddwr Gweithredol, George M Thomson a Ms Diane Labrèche, uwch-ymgynghorydd ar faterion datblygu'r cwricwlwm a'r teulu.
- Ymwelsom â swyddfa'r Comisiynydd dros Faterion Barnwrol Ffederal yn Ottawa a chyfarfuom â Denis Guay, Comisiynydd Gweithredol, Ms Yolande Cloutier, Cyfarwyddydd Hyfforddiant Iaith, Ellen Wright, Arweinydd Prosiectau, Hyfforddiant Iaith i Farnwyr a Marie Burgher,

overlap between the skills of the jurilinguist and that of the editor, the jurilinguist has, by definition, more of a legal and linguistic background than the editor. The jurilinguist's own editing role is more comprehensive and is carried out at an earlier stage in the legislative process. In addition to identifying the kind of errors which the editor would also look for, the jurilinguist seeks to ensure compliance with legislative drafting conventions in force and he or she has a much greater advisory role in discussing with drafters any deficiencies or ambiguities in the text and any terminological problems.

## **5. TRAINING AND CONTINUING EDUCATION FOR JUDGES**

5.1 This section of our report deals with the programme for the continued education and training of judges and with their language training in particular. But, as set out in our Recommendations, it has a wide relevance to the work of the Civil Service.

### **5.2 Those whom we saw**

- We visited the National Judicial Institute in Ottawa and met the Executive Director, George M Thomson and Ms Diane Labrèche, senior adviser, curriculum and family development.
- We visited the office of Commissioner for Federal Judicial Affairs at Ottawa and met Denis Guay, the Acting Commissioner, Ms Yolande Cloutier, Director for Language Training, Ellen Wright, Project Leader, Judges' Language Training and Marie Burgher, Executive Assistant.

Cynorthwy-ydd Gweithredol.

- Yn Québec, trafodasom y sefyllfa gyda'r Hon Monsieur Le Juge Jean-François Dionne, *Justice de la Cour de Québec*.

### 5.3 Y cyfrifoldebau

5.3.1 Sefydlwyd swyddfa'r Commissioner for Federal Judicial Affairs er mwyn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r farnwriaeth yn cael eu trin gan swyddfa nad oedd yn gysylltiedig â'r Gweinidog Cyfiawnder a Llywodraeth Canada. Un o gyfrifoldebau swyddfa'r Comisiynydd yw'r rhaglen hyfforddiant iaith ar gyfer barnwyr. Yn y 1980au hwyr, sefydlwyd y Sefydliad Barnwrol Cenedlaethol ar wahân fel corfforaeth na fwriedid iddi wneud elw, er mwyn cyd-drefnu hyfforddiant ac addysg ar gyfer Barnwyr yn ymwneud â phob mater ar wahân i iaith. Mae'n cael ei arwain gan Brif Ustus Canada ac mae'r materion dydd i ddydd yn nwylo'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Fe'i hariennir gan y Llywodraethau Ffederal a Thaleithiol.

### 5.4 Y rhaglen hyfforddiant iaith ar gyfer barnwyr a benodwyd gan y Llywodraeth Ffederal

*Y gyfundrefn gyffredinol*

5.4.1 Mae'r rhaglen hyfforddiant iaith ei hun ar gael i bob barnwr sy'n cael ei benodi gan y Llywodraeth Ffederal yng Nghanada. Fe'i sefydlwyd i ddechrau yn 1968 ac roedd yn cael ei gweinyddu ar y dechrau gan Gomisiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus. Arweiniodd yr angen am hyfforddiant arbenigol a chyfrinachedd i'r farnwriaeth at lunio rhaglen ar wahân ar gyfer y barnwyr yn 1978, rhaglen sy'n cael ei chynllunio, ei threfnu a'i hariannu gan swyddfa'r Comisiynydd. Dywedwyd wrthym fod profiad wedi

- In Québec, we discussed the position with Hon Monsieur Le Juge Jean-François Dionne, Justice of the Cour de Québec.

### 5.3 The responsibilities

5.3.1 The office of the Commissioner for Federal Judicial Affairs was established to ensure that matters pertaining to the judiciary were dealt with by an office independent of the Minister of Justice and the Government of Canada. Among the responsibilities of the office of the Commissioner is the language training programme for judges. In the late 1980s, a separate National Judicial Institute was established as a not for profit corporation to provide co-ordinated training and education for Judges on all matters other than language. It is headed by the Chief Justice of Canada with the day to day affairs in the hands of the Executive Director. It is funded by the Federal and Provincial Governments.

### 5.4 The language training programme for federally appointed judges

*The general organisation*

5.4.1 The language training programme is available to all federally appointed judges in Canada. It was initially established in 1968 and at first administered by the Public Service Commission. The need for specialised training and for confidentiality for the judiciary led in 1978 to the creation of a separate programme for the judges which is planned, organised and financed by the Office of the Commissioner. We were told that experience had shown that a separate programme for judges



dangos bod rhaglen ar wahân ar gyfer barnwyr yn hanfodol ac nad oedd yn bosibl gweithredu rhaglen effeithiol ar y cyd â chyfreithwyr eraill neu bobl eraill a oedd yn ymwneud â gweinyddu cyfiawnder.

5.4.2 Mae copi o'r llyfryn sy'n egluro'r rhaglen i'w weld yn atodiad 4; dim ond y fersiwn Saesneg sydd wedi ei gopïo.

*Gwaith Swyddfa'r Comisiynydd*

5.4.3 Mae 7 aelod staff parhaol yn Swyddfa'r Comisiynydd; maent yn trefnu ac yn goruchwyllo'r rhaglen ac yn paratoi deunyddiau i'w defnyddio ar y cyrsiau.

*Yr amcanion*

5.4.4 Amcan y rhaglen yw galluogi barnwyr i gyrraedd lefelau rhuglder olynol, a'r lefel uchaf yw'r gallu i lywyddu yn y llys a thraddodi dyfarniadau mewn ail iaith. Mae lefelau o ruglder eraill yn galluogi barnwyr i ddeall testimony neu ddarllen dogfennau a thestunau yn yr ail iaith. Cydnabyddir mai dim ond lefel ganolraddol y bydd rhai'n gallu ei chyrraedd, ond gan fod hyn yn cael ei ystyried yn bwysig ynddo'i hun, mae'r rhaglen yn darparu ar gyfer hyn. Mae gan y rhaglen felly bedair lefel – sylfaenol, canolraddol, uwch a rhugl. Mae'n anelu at wella sgiliau ieithyddol cyffredinol a hefyd sgiliau ieithyddol cyfraith.

*Cofrestru ar gyfer y rhaglen*

5.4.5 Mae pob barnwr yn cael manylion am y rhaglen ar yr adeg y mae'n cael ei benodi. Os yw'n gwneud cais i gael cymryd rhan asesir faint o wybodaeth o'r ail iaith sydd ganddo a'i allu i

was essential and it was not possible to carry out an effective programme in conjunction with other lawyers or with others concerned with the administration of justice.

5.4.2 A copy of the booklet explaining the programme is at annex 4; the English language version only has been copied.

*The work of the Office of the Commissioner*

5.4.3 There is a permanent staff of 7 at the Office of the Commissioner; they organise and supervise the programme and prepare materials for use on the courses.

*The objectives*

5.4.4 The objective of the programme is to enable judges to reach successive levels of proficiency with the highest level being the ability to preside in court and deliver judgments in a second language. Other levels of proficiency enable judges to understand testimony or read documents and texts in the second language. It is acknowledged that some may only be able to reach an intermediate level, but as this is considered important in itself, the programme caters for this. The programme therefore has four levels – basic, intermediate, advanced and proficiency. It is geared to improving general language skills and also legal language skills.

*Enrolment into the programme*

5.4.5 Each judge is supplied with details of the programme on appointment. If he applies to participate he is assessed for his level of knowledge of the second language and his aptitude for

ddysgu ieithoedd trwy ddau brawf. Asesir gallu yn ôl graddau o A i D. Ni wrthodir hyfforddiant i unrhyw farnwr, ond os yw ei wybodaeth a'i allu i ddysgu ieithoedd yn isel ac yntau ddim yn debygol o ddefnyddio'r ail iaith yn ei waith mae'n bosibl y bydd yn cael ei annog i beidio â dilyn y rhaglen. Anogir y sawl sy'n dechrau o'r dechrau, yn enwedig os yw'n frwdfrydig, os yw'r gallu i ddysgu iaith ganddo, os yw'n ddigon ifanc ac os yw'n debygol o ddefnyddio'r iaith. Mae'r rhaglen yn galw am ymroddiad sylweddol. Fel y dywedodd un barnwr:

"Mae'r rhaglen yn gyffrous, ac nid yw'n hawdd o bell ffordd. Mae'n cymryd tipyn o amser ac yn gofyn i'r unigolyn aberthu gwyliau, amser nad yw'n eistedd mewn llys ac amser a fyddai wedi ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau eraill."

5.4.6 Ar hyn o bryd mae 269 barnwr allan o 1025 wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen.

#### *Hyfforddiant unigol*

5.4.7 Mae'r Swyddfa'n trefnu hyfforddiant unigol ar gyfer barnwyr; mae'r Swyddfa'n dewis athro iaith ac yn trefnu i'r athro ymweld â'r barnwr (neu farnwr a chydweithiwr) yn ei swyddfa ar gyfer sesiynau a fydd rhwng 4 ac 8 awr y mis gyda'i gilydd, gyda'r sesiynau yn para am 1-3 awr. Gwneir hyn yn ystod amser y barnwr ei hun. Bydd hyn yn golygu oddeutu 80 awr o ddysgu yn ystod y flwyddyn gyfreithiol ac mae'n faich ychwanegol sylweddol ar y barnwr.

5.4.8 Mae'r hyfforddiant yn dilyn cynllun pendant ac mae cwricwlwm penodol a deunydd cwrs yn cael eu paratoi a'u darparu gan y Swyddfa; mae'r deunyddiau wedi eu paratoi ar gyfer

learning languages by taking two tests. The assessment of aptitude is at grades A to D. No judge is refused training, though he may be discouraged if he has a low level of knowledge and aptitude and is unlikely to use the second language in his work. Absolute beginners are encouraged, particularly if they are motivated, have an aptitude for languages, are young enough and are likely to use the language. The programme requires a high degree of commitment. As one judge has commented:

"The programme is stimulating, and by no means easy. It demands a commitment of time and a personal sacrifice of vacation, non-sitting time and time that would have been devoted to other activities."

5.4.6 There are presently 269 judges out of 1025 enrolled in the programme.

#### *Individual tuition*

5.4.7 The Office organises individual tuition for judges; the Office selects a language teacher and arranges for the teacher to visit the judge (or a judge and a colleague) in his office for sessions totalling between 4 and 8 hours a month, with the sessions being 1-3 hours in length. This is done in the judge's own time. This will amount to about 80 hours of teaching over the legal year. This imposes a considerable additional burden on the judge.

5.4.8 The tuition is structured with a set curriculum and course materials prepared and provided by the Office; the materials are geared to the courtroom. Tests are taken regularly.

ystafell y llys. Gwneir profion yn rheolaidd.

5.4.9 Un o'r amodau cyn y bydd athro'n derbyn tâl yw ei fod yn darparu adroddiad am y cynnydd sydd wedi ei wneud bob mis. Cedwir yr adroddiadau hyn mewn ffeil gyfrinachol ar gyfer pob barnwr a dim ond y rhai hynny sy'n gyfrifol am yr hyfforddiant iaith fydd yn eu gweld.

5.4.10 Mae'r Swyddfa hefyd yn bwriadu trefnu dysgu o bell fel rhan o'r hyfforddiant unigol.

#### *Ymdrwytho*

5.4.11 Yn ogystal â'r hyfforddiant unigol, mae'r Swyddfa'n trefnu sesiynau ymdrwytho ar gyfer cyfnod o bythefnos, fel arfer yn ystod mis Chwefror bob blwyddyn. Mae'r rhain yn dechrau ar y dydd Llun yn ystod yr wythnos gyntaf, yn parhau trwy'r penwythnos ac yn dod i ben ar y dydd Gwener ar ddiwedd yr ail wythnos. Mae'r sesiynau'n arddwys, gan ddechrau gyda brecwast am 7:30 ar gyfer pawb gyda'i gilydd, dosbarthiadau o 8:30 hyd 4pm a gweithgareddau a phryd min nos ar ôl y dosbarthiadau. Gwneir popeth yn yr ail iaith. Maent yn anelu at ddarparu 60 awr o hyfforddiant yn ystod y cyfnod o 12 diwrnod. Mae'r gweithgareddau a drefnir ganddynt yn cynnwys treulio amser gyda barnwyr lleol a mynychu gweithgareddau cymdeithasol lle mae'n rhaid iddynt siarad neu wrando ar yr ail iaith.

5.4.12 Mae'r Swyddfa'n trefnu'r cyfarfodydd hyn mewn lleoliad lle siaredir Ffrangeg ar gyfer y rhai sy'n dysgu Ffrangeg (fel Québec neu Montréal) ac mewn lleoliad lle siaredir Saesneg (fel Victoria, BC) ar gyfer y rhai sy'n dysgu Saesneg.

5.4.9 As a condition of payment, the teacher has to provide a report on progress each month. These reports are kept on a confidential file for each judge which are seen only by those responsible for language training.

5.4.10 The Office is also planning to organise distance learning as part of individual tuition.

#### *Immersion*

5.4.11 In addition to the individual tuition, the Office organises immersion sessions for a two week period, usually in February each year. These begin on the Monday of the first week, run through the weekend and end on the Friday of the second week. The sessions are intensive beginning with breakfast at 7:30 which all take together, classes from 8:30 to 4pm and after class activities and dinner. Everything is done in the second language. They aim to achieve 60 hours of tuition over the 12 day period. The activities they arrange include spending time with local judges and going to social events where they have to speak or listen to the second language.

5.4.12 The Office organises these meetings in a French speaking location for those learning French (such as Québec or Montréal) and in an English speaking location (such as Victoria, BC) for those learning English.

5.4.13 Fel arfer mae rhwng 40 a 60 o farnwyr yn y sesiynau hyn; cyfunir barnwyr sydd â lefelau cyrhaeddiad gwahanol ar y sesiynau hyn, gan eu rhannu'n grwpiau bach yn ôl eu lefelau cyrhaeddiad.

5.4.14 Dysgir sgiliau ysgrifennu hefyd yn y sesiynau ymdrwytho hyn; dyma'r rhan anoddaf o'r hyfforddiant.

5.4.15 Caniateir i'r amser ar gyfer ymdrwytho ddod o'r oriau gweithio fel arfer, ond mae hyn yn amrywio o'r naill lys i'r llall; weithiau, mae'r amser yn gorfod dod o amser gwyliau.

5.4.16 Bydd y Swyddfa o bryd i'w gilydd, ar gais barnwr unigol (os yw'n cael ei gefnogi gan ei brif ustus), yn trefnu cyfnod ymdrwytho unigol hwy; mae hyn yn digwydd fel arfer pan fo'r barnwr yn gallu defnyddio cyfnod o seibiant astudio. Bydd y Swyddfa wedyn yn trefnu i'r barnwr dreulio mis neu gyfnod hwy yn ymestyn hyd at 3 mis, gyda theulu ynghyd â chyfle iddo ddilyn cyrsiau yn ystod y dydd.

#### *Arfarnu parhaus*

5.4.17 Cyn y gall Barnwr symud o un o'r pedair lefel i lefel uwch, arferir ei sgiliau llafar, ei sgiliau ysgrifenedig a'i sgiliau darllen gan asesydd allanol.

5.4.18 Bydd y Swyddfa'n cyflwyno adroddiad i'r prif ustus perthnasol ynghylch y cynnydd y mae'r rhai sy'n dilyn y rhaglen wedi ei wneud; ac eithrio hyn, mae'r wybodaeth a gedwir gan y Swyddfa yn gyfrinachol i'r barnwr a'r Swyddfa.

#### *Cost y rhaglen*

5.4.19 Cost y rhaglen (gan gynnwys cyflogau, deunydd cwrs a chostau'r

5.4.13 There are normally about between 40 and 60 judges at these sessions; they combine judges at different levels of attainment on these sessions, breaking them into small groups according to their levels of attainment.

5.4.14 Writing skills are also taught at these immersion sessions; this is the most difficult part of the training.

5.4.15 Time taken on immersion is normally allowed against working time, but this varies from court to court; sometimes, the time has to come from holiday time.

5.4.16 The Office will organise from time to time at the request of an individual judge (if supported by his chief justice) a longer period of individual immersion; this usually happens when the judge has available to him a period of study leave. The Office will then arrange for the judge to spend a month or a longer period up to 3 months with a family and for him to take courses during the day

#### *Continuing evaluation*

5.4.17 Before a Judge can pass from one of the four levels to a higher level, an evaluation is made of his oral, writing and reading skills by an external assessor.

5.4.18 The Office reports to the relevant chief justice on the progress of those enrolled in the programme; apart from this, the information held by the Office is confidential between the judge and the Office.

#### *The cost of the programme*

5.4.19 The cost of the programme (including salaries, course materials

barnwyr sy'n ei dilyn) yw Can\$1.5m (tua £685,000). Pan fo barnwyr yn mynychu un o'r cyrsiau ymdrwytho 12 diwrnod mae'n costio oddeutu Can\$2000-3000 y barnwr. Mae'r hyfforddiant unigol yn costio oddeutu Can\$40 yr awr.

and expenses for judges attending) is Can\$1.5m (about £685,000). The cost for each judge to attend one of the 12 day immersion courses is about Can\$2000-3000 per judge. The cost of individual tuition is about Can\$40 per hour.

## 5.5 Y sefyllfa yn Québec

## 5.5 The position in Québec

5.5.1 Trefnir cyrsiau Saesneg ar gyfer rhai barnwyr ac maent wedi eu teilwrio ar gyfer anghenion y barnwr unigol. Mae llawer o'r hyfforddiant yn hyfforddiant unigol gydag athro'n mynychu swyddfa'r Barnwr ar ôl oriau llys unwaith yr wythnos am ddwy awr. Yr amcan yw hybu dwyieithrwydd a sicrhau bod digon o farnwyr sy'n gallu cynnal treialon drwy gyfrwng y Saesneg. Rhoddir blaenoriaeth i farnwyr sy'n ymwneud ag achosion troseddol gan mai yn y maes hwn y mae angen treialon Saesneg gan amlaf.

5.5.1 English courses are run for some judges and tailored to the needs of the particular judge. Much of the training is on an individual basis with a teacher attending the Judge's office after court hours once a week for two hours. The objective is to promote bilingualism and to ensure that there are enough judges who can hold English language trials. Priority is given to judges who try crime as that is the area in which English language trials are most often needed.

## 5.6 Heddlu Ottawa

## 5.6 The Ottawa police

5.6.1 Mae hyfforddiant iaith ar gael ac mae'r swyddogion sy'n dilyn hyfforddiant yn gwneud hynny yn eu hamser eu hunain.

5.6.1 Language training is available and is carried out in the own time of the officers being trained.

## 6 Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

## 6 THE CRIMINAL JUSTICE SYSTEM

6.1 Er bod y pwnc hwn yn fwyaf perthnasol i Weinyddu Cyfiawnder, pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n dod yn gyfrifol am erlyn troseddau dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 pan fydd y Ddeddf honno'n dod i rym ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2002, bydd y broses erlyn yn dod yn rhan o fusnes y Cynulliad i ddibenion adran 47 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

6.1 Although this topic is primarily of relevance to the Administration of Justice, when the National Assembly for Wales assumes responsibility for the prosecution of offences under the Care Standards Act 2000 when that Act comes into effect on the 1<sup>st</sup> April 2002, the prosecution process will become part of the Assembly's business for the purposes of section 47 of the Government of Wales Act 1998.

## **6.2 Y rhai a welsom**

6.2.1 Cawsom drafod y defnydd o'r ddwy iaith yn y system gyfiawnder troseddol gyda Mr Ronald LeBlanc, Erlynydd y Goron, a'r Barnwr Sylvio J. Savoie ym Moncton NB, gyda'r Hon Monsieur Le Juge Jean-François Dionne, Justice de la Cour de Québec a Mtre Mario Tremblay, Dirprwy Brif Erlynydd cyffredinol Québec, yn Québec a chyda'r Arolygydd Hartley, Y Rhingyll Lachance a Ms Wright o Heddlu Ottawa.

## **6.3 Yr hawliau sylfaenol**

6.3.1 Mae'r ffordd y mae'r defnydd o'r ieithoedd wedi datblygu wedi bod yn seiliedig ar ddwy hawl sylfaenol – hawl diffynnydd i dreial teg a'r darpariaethau sy'n rhoi hawliau ieithyddol.

## **6.4 Y sefyllfa yn New Brunswick ac Ottawa**

6.4.1 Yr hyn a wnaethpwyd oedd gweithredu'r hawliau sylfaenol a chadw popeth mor syml ag sy'n bosibl.

### *Cyngor ynghylch hawliau ac arestio*

6.4.2 Pan fo diffynnydd yn cael ei arestio neu ei atal oherwydd trosedd fechan, bydd yr heddwes fel arfer yn gallu dweud pa iaith y mae'r diffynnydd yn ei ffafrio. Ni wneir unrhyw ddatganiad ffurfiol i'r diffynnydd ynghylch yr hawl i ddewis rhwng Ffrangeg a Saesneg. Os nad yw'r heddwes yn siŵr, yr arferiad yw gofyn pa iaith y mae'r diffynnydd yn dymuno ei defnyddio a gwneud popeth o hynny ymlaen yn yr iaith a ddewisir gan y diffynnydd. Os nad yw'r heddwes yn rhugl yn yr iaith honno, yr arferiad yw galw ar

## **6.2 Those whom we saw**

6.2.1 We were able to discuss the use of both languages in the criminal justice system with Mr Ronald LeBlanc, the Crown Prosecutor, and Judge Sylvio J. Savoie at Moncton NB, with Hon Monsieur Le Juge Jean-François Dionne, Justice de la Cour de Québec and Mtre Mario Tremblay, Substitut en Chef du Procureur général de Québec, at Québec and with Inspector Hartley, Sgt Lachance and Ms Wright of the Ottawa Police.

## **6.3 The basic rights**

6.3.1 The way in which the use of the languages has developed has been based upon two basic rights - the right of a defendant to a fair trial and the provisions conferring language rights.

## **6.4 The position in New Brunswick and Ottawa**

6.4.1 The approach has been to implement the basic rights and to keep everything as simple as possible.

### *Advice of rights and arrest*

6.4.2 When a defendant is arrested or stopped for a minor offence, the police officer will usually be able to judge which is the defendant's preferred language. No formal statement is made to the defendant about the right to chose between French and English. If the officer has a doubt, the practice is to ask which language the defendant wishes to uses and thereafter to do everything in the language of the defendant's choice. If the police officer is not proficient in that language, the

heddwes arall i ddod i ddelio gyda'r diffynnydd.

practice is to summon another officer to take over dealing with the defendant.

6.4.3 Mae pob swyddog yn cario'r rhybuddion safonol neu drefn safonol y geiriau a ddefnyddir yn y ddwy iaith gydag ef ar gerdyn; mae enghraifft o'r hyn a ddefnyddir yn Ottawa i'w gweld ynghlwm yn atodiad 5.

6.4.3 Each officer carries with him on cards the standard cautions or forms of words that are used in both languages; an example of that used in Ottawa is attached as annex 5.

6.4.4 Yn NB, rhoddir tocynnau i'r diffynnydd pan fo'n cael ei atal oherwydd trosedd fechan; mae enghraifft i'w gweld ynghlwm yn atodiad 6. Gosodir y ddwy iaith ochr yn ochr ac fe'u cedwir yn syml. Dywedwyd wrthym fod gan bob heddwes gerdyn gyda rhestr o droseddau arno yn Ffrangeg ac yn Saesneg fel bod modd i unrhyw heddwes lenwi'r ffurflen. Yn Ottawa, mae'r trefniadau'n debyg, ond dim ond yn Saesneg y nodir y drosedd fel arfer.

6.4.4 In NB, tickets are given to the defendant when he is stopped for a minor offence; an example is attached at annex 6. Both languages are set out side by side and kept simple. We were told that all police officers are provided with a card with a list of offences in French and English so that it is possible for any officer to complete the form. In Ottawa, the procedure is similar, though the offence is usually only specified in English.

#### *Darparu ffurflenni dwyieithog*

#### *Provision of bilingual forms*

6.4.5 Mae pob ffurflen a ddefnyddir yn Ottawa a NB yn gosod y ddwy iaith ochr yn ochr; mae enghraifft i'w gweld yn atodiad 7. Unwaith eto rhoddir cryn sylw i gadw'r iaith yn syml ac yn glir. Mewn rhai ardaloedd yn NB lle siaredir Ffrangeg yn bennaf, mae rhai yn fwy cyfarwydd â thermau Saesneg y maent wedi eu clywed ar y cyfryngau yn hytrach na'r term Ffrangeg technegol gywir. Mae testunau ochr yn ochr yn golygu bod pobl o'r fath yn gallu darllen y ffurflen yn eu hiaith eu hunain yn bennaf ond yn gallu edrych ar yr iaith arall os ydynt yn ansicr ynghylch unrhyw derm technegol.

6.4.5 All forms used in Ottawa and NB are in a bilingual side by side format; an example is at annex 7. Again considerable attention is paid to keeping the language simple and clear. In some predominantly French speaking communities in NB, some are more familiar with English language terms they have heard on the media rather than the technically correct French term. Side by side texts enable such persons to read the form predominantly in their own language but with the ability to refer to any technical term in the other language.

#### *Cyflwyno'r broses*

#### *Conduct of the process.*

6.4.6 Dan gyfraith ffederal Canada, y

6.4.6 Under federal Canadian law, the

diffynnydd sydd i ddewis ym mha iaith y cynhelir y broses droseddol yn ei chyfanrwydd; bydd yn gwneud dewis cychwynnol, ond mae ganddo hawl i newid. Yn NB, cyflwynir dogfennau'r achos iddo yn yr iaith honno; yn Ottawa, cyflwynir y dogfennau ym mhapurau'r achos yn yr iaith y crëwyd pob dogfen ynddi.

choice of the language of the entire criminal process is that of the defendant; he will make an initial choice, but has the right to change. In NB, the case documents are presented to him in that language; in Ottawa, the documents in the case papers are presented in the language in which each document is created.

6.4.7 Yn NB, mae pob ffurflen fewnol a ddefnyddir yn y broses erlyn yn ddwyieithog; prosesir y trefniadau mewnol yn yr achos wedyn yn Ffrangeg neu yn Saesneg gan ddibynnu ar yr iaith a ddewiswyd gan y diffynnydd. Yn Ottawa, mae'r broses a'r dogfennau mewnol yn Saesneg.

6.4.7 In NB, all internal forms used in the prosecution process are bilingual; the internal procedures in the case are then processed in French or in English according to the choice of language made by the defendant. In Ottawa, the internal documentation and process is in English.

6.4.8 Mewn treial yn NB, mae pob tyst wedyn yn rhoi tystiolaeth yn iaith y treial, a'r dystiolaeth yn cael ei chyfieithu os nad yw'r tyst yn siarad iaith y treial. Er hyn, mae tystion yn rhoi eu tystiolaeth yn Ffrangeg neu yn Saesneg os yw'r diffynnydd yn cydsynio i gael treial dwyieithog. Yn Ottawa, yr arferiad yw cynnal treial dwyieithog.

6.4.8 At trial in NB, each witness then gives evidence in the language of the trial, the evidence being translated if the witness does not speak the language of the trial. Witnesses do, however, give their evidence in French or English, if the defendant consents to a bilingual trial. In Ottawa, the practice is to hold a bilingual trial.

6.4.9 Os oes treial gerbron rheithgor, yna dewisir y rheithgor yn ôl iaith yr achos; os yw'n dreial Ffrangeg, rhaid i'r rheithgor allu siarad Ffrangeg; os yw'n dreial dwyieithog, yna rhaid i'r rheithgor fod yn ddwyieithog. Yn Ottawa, bernir ei bod yn bwysig bod y rheithgor, fel y barnwr, yn clywed y dystiolaeth yn yr iaith y mae'n cael ei chyflwyno er mwyn iddynt allu asesu awgrymiadau myniant.

6.4.9 If there is a jury trial, then the jury is selected according to the language of the case; if it is a French trial, the jury must be French speaking; if it is a bilingual trial, then the jury must be bilingual. In Ottawa, the view is taken that it is important that the jury, like the judge, hear the evidence in the language in which it is given so that they can assess the nuances of expression.

## **6.5 Y sefyllfa yn Québec**

## **6.5 The position in Québec**

6.5.1 Mae'r sefyllfa'n wahanol yn Québec. Gwneir popeth yn Ffrangeg, onid yw'r Diffynnydd yn gofyn am y Saesneg; mewn achos o'r fath, cynhelir y

6.5.1 In Québec, the position is different. Everything is done in French, unless the Defendant requests English; in such a case, the process will be



broses yn Saesneg a bydd treial Saesneg yn cael ei arwain gan farnwr sy'n ddwyieithog. Nid yw treialon gerbron rheithgor drwy gyfrwng y Saesneg yn gyffredin. Y rheswm am hyn yw bod treialon gerbron rheithgor yn orfodol mewn rhai achosion (fel llofruddiaeth) a, lle bo gan ddiffynnydd ddewis, y dewis cyffredinol yw treial gerbron barnwr yn unig, gan fod rheithgorau'n fwy tebygol o ddyfarnu'n euog na barnwr.

conducted in English and there will be an English language trial conducted by a judge who is bilingual. Jury trials in English are not common. This is because jury trials are only compulsory in certain cases (such as murder) and, where a defendant has a choice, the general choice is for trial by judge alone, as juries are more likely to convict than a judge.

## **7. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**

## **7. CONCLUSIONS AND RECOMMENDATIONS**

7.1 Cyfeiriwyd ein hymchwiliad yn gyfan gwbl at y pwnc o hwyluso'r gwaith o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddeddfu a gweinyddu cyfiawnder yn unol â darpariaethau statudol penodol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Gwneir ein hargymhellion yn y cyd-destun hwnnw.

7.1 Our enquiry has been directed solely at the issue of facilitating the operation of the treatment of English and Welsh on a basis of equality in law making and in the administration of justice in accordance with the specific statutory provisions of the Welsh Language Act 1993 and the Government of Wales Act 1998. Our recommendations are made in that context.

7.2 Gwnaethom argymhellion yn Adroddiad SCC 2000; mae nifer ohonynt wedi eu gweithredu, ond prin iawn yw'r cynnydd sydd wedi ei wneud gydag un neu ddau. Lle'r oedd y pwnc yn cael sylw yn Adroddiad SCC 2000, mae'n safbwyntiau, er mwyn gallu cyfeirio'n rhwydd atynt, yn cynnwys y safbwyntiau a fynegwyd gennym yn yr adroddiad cynharach.

7.2 We made recommendations in the OCG Report 2000; a number have been taken forward, but little progress has been made on one or two. Where the subject matter was covered in the OCG Report 2000, our views incorporate, for ease of reference, the views we expressed in the earlier report.

### **Argymhellion**

### **Recommendations**

1. Rydym yn fodlon ar sail y dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymweliad hwn a'n hymweliad blaenorol â Chanada, yng nghyd-destun dwyieithrwydd, bod

1. We are satisfied on the evidence we have received in the course of this and our previous visit to Canada that in the context of bilingualism the

gweinyddu cyfiawnder a deddfu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhannau o'r un broses. Mae gan y broses hon sawl rhan ond mae pob un yn annatod o'r cyfanwaith. Y prif rannau yn ein barn ni, nid mewn unrhyw drefn pwysigrwydd, yw rôl y prifysgolion, safoni termau, drafftio deddfwriaeth a ffurflenni statudol ar y cyd, ieithyddion cyfraith a golygyddion, hyfforddiant ieithyddol, y broses erlyn a rôl y llysoedd. Mae agweddau ar y broses erlyn nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol amdanynt hefyd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

### Y Prifysgolion

2. Mae prifysgolion Cymru eisoes yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu dwyieithrwydd wrth weinyddu cyfiawnder a deddfu yng Nghymru. Rydym yn argymhell y dylai colegau'r prifysgolion ddal i weithio gyda'i gilydd i drefnu cyrsiau peilot sy'n dysgu'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn rhaid i'r prosiect hwn fod yn un tymor hir. Rydym yn rhagweld y bydd yn broses raddol, yn dechrau gydag un neu ddau o bynciau, fel cyfraith troseddau a drafftio gan mai dyma'r meysydd lle mae'r angen am gyfreithwyr dwyieithog yn debygol o fod fwyaf. Bydd angen arian ar gyfer hyn ond ni ddylai fod yn fater anorchfygol os yw'n cael ei wneud yn raddol fel sydd ei angen ac ar y cyd â gwaith arall.

### Safoni Termau

3. Mae'n amlwg i ni bod gwir angen safoni termau ac mai dim ond trwy

administration of justice and law making by the National Assembly are but parts of the same process. That process has a number of parts but each one is integral to the whole. The main parts in our view, not in any order of importance, are the role of the universities, standardisation of terminology, co-drafting of legislation and statutory forms, jurilinguists and editors, language training, the prosecution process and the role of the courts. Aspects of the prosecution process not part of the responsibilities of the National Assembly also fall outside the scope of this report.

### The Universities

2. The universities of Wales are already playing an essential part in the development of bilingualism in the administration of justice and law making in Wales. We recommend that the colleges of the universities should continue to work together in piloting law courses through the Welsh language. This will of necessity be a long term project. We envisage that it will be a gradual process, perhaps beginning with one or two subjects such as criminal law and drafting as these are the areas where the need for bilingual lawyers is likely to be the greatest. It will require funding but this should not be an insurmountable object if it is taken forward on the gradual basis that is necessary and in conjunction with other work.

### Standardisation of Terminology

3. It is clear to us that there is an overwhelming need for standardised

ddefnyddio cyfreithwyr sy'n arbenigwyr yn y maes arbennig hwnnw o'r gyfraith sy'n cael ei ystyried y gellir gwneud hynny. Dylid bwrw 'mlaen cyn gynted ag y bo modd â'r prosiect safoni termau sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Llys. Bydd oedi'n gostus, gan y bydd yn cynnwys cost ail-wneud neu ddad-wneud termau sydd wedi eu defnyddio'n anghywir neu'n anghyson.

terminology and that this can only be achieved through the involvement of lawyers who are specialists in the particular field of law under consideration. The project for the standardised terminology currently being considered by the National Assembly and the Court Service should be taken forward as rapidly as possible. Delay will be expensive as it will entail the cost of redoing or undoing wrongly or inconsistently used terminology.

4. Dylid ystyried seilio'r prosiect yn llawer cliriach ar y ffordd y mae'n cael ei wneud yng Nghanada gyda'i phroses dau gam a chyda chyfreithwyr academiaidd sydd wedi arbenigo yn y maes cyfreithiol sy'n cael ei ystyried yn gwneud llawer iawn o waith yn y cam cyntaf ynghyd ag ieithyddion sydd â diddordeb mewn termau cyfreithiol.

4. Consideration should be given to modelling the project much more clearly on the way in which it is done in Canada with its two stage process and with academic lawyers specialised in the field of law under consideration having a close involvement in the first stage together with linguists interested in legal terminology.

5. Credwn y dylai'r prosiect gael ffocws cychwynol ac y dylai ganolbwyntio yn gyntaf ar:

5. We consider that the project should be given an initial focus and concentrate first on:

- Ddeddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol (o ystyried adrannau 66(4) a 122 yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998)
- Trefniadaeth sifil (o ystyried yr angen i ddarparu fersiynau dwyieithog o'r ffurflenni trefniadaeth sifil newydd);
- Cyfraith a threfniadaeth troseddau (o ystyried ein hargymhellion eraill);

- The National Assembly's legislation (in view of sections 66(4) and 122 of the Government of Wales Act 1998)
- Civil procedure (in view of the need to provide bilingual versions of the new civil procedure forms);
- Criminal law and procedure (in view of our other recommendations);

6. Dylid sicrhau bod modd gweld gwaith y prosiect safoni yn rhwydd ar y rhyngwryd. Mae'n anodd cyfiawnhau cost cyhoeddi copi caled. Ni fyddai ychwaith yn gwasanaethu anghenion y rhai hynny a fyddai â diddordeb gan

6. The work of the standardisation project should be made freely available on the internet. The cost of hard copy publication is difficult to justify. Nor would it serve the needs of those interested as it is essential to

ei bod yn hanfodol cadw'r hyn sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyfredol, fel y mae'r prosiect yn cael ei weithredu. Nid oes angen cyhoeddi copi caled ychwaith o ystyried cymaint sy'n gallu defnyddio'r rhyngwyd a'r ffaith fod modd argraffu copi caled o unrhyw gofnod unigol sydd ei angen.

### Hyfforddiant

7. Yn ein barn ni, dylai'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y Farnwriaeth gael ei gweld fel patrwm ar gyfer uwchweision sifil, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ac eraill sy'n ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus a'r system gyfiawnder. Yn ein barn ni, gellir addasu a chymhwyso'r rhaglen, yn enwedig y broses dysgu iaith, yn gymharol rwydd i'r uwch-wasanaeth sifil. Credwn y byddai'n fuddiol iawn i'r cyfreithwyr a'r gweinyddwyr yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Credwn fod grym yn y datganiad nad yw'n rhesymol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddisgwyl cyflawni ei ddyletswyddau targed dan adran 47 Deddf Llywodraeth Cymru drwy gyfieithu yn unig.

### Y System Gyfiawnder Troseddol

8. Dylid ystyried nifer o newidiadau cymharol fach ar gyfer y system gyfiawnder troseddol a'r rheini'n newidiadau unffurf drwy Gymru. Ar wahân i ystyried darparu rheithgorau dwyieithog mewn rhai achosion (mater sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn a'r argymhellion hyn), dylid ystyried darparu gwysion a ffurflenni eraill a ddarperir i'r diffynnydd neu sydd i'w hateb ganddo yn ddwyieithog. Bydd angen i'r

keep what is publicly available up to date, as the project is implemented. Nor is hard copy publication necessary given the widespread access to the internet and the ability to print in hard copy any individual entry required.

### Training

7. In our judgement, the training programme for the Judiciary should be seen as a model for senior civil servants, OCG and others concerned in public administration and in the justice system. In our judgement, the programme, especially the language learning process, can be adapted and applied without much difficulty to the senior civil service. We are of the view that it would be of particular value to the lawyers and administrators in the Office of the Counsel General. We believe there is force in the statement that the National Assembly for Wales cannot reasonably expect to achieve its target duties under section 47 of the Government of Wales Act through translation alone.

### The Criminal Justice System

8. A number of relatively small changes should be considered for the criminal justice system on a uniform basis across Wales. Apart from consideration of the provision of bilingual juries in certain cases (an issue outside the scope of this enquiry and these recommendations), consideration should be given to the provision of bilingual summonses and other forms which are provided to the defendant or are to be answered by

manyllion gael eu hystyried yn ofalus gan bwyllgor sy'n cynrychioli pob un sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder troseddol. Byddem yn disgwyl i'r ffurflenni a'r gwysion fod ar "ffurf ochr yn ochr" fel yng Nghanada; y byddai cynnydd yn cael ei wneud ar sail Cymru gyfan ac yn cael ei weithredu'n raddol fel bod modd asesu'r gost, y fethodoleg, yr angen a'r effaith. Ni welwn fod angen argymell unrhyw addasiad i unrhyw drefniadau mewnol nac i ffurflenni sy'n cael eu defnyddio'n fewnol gan y rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol; rhaid i'r rhain barhau'n faterion i awdurdodau unigol.

him. The details will need to be worked out carefully by a committee representative of all those concerned in the criminal justice system. We would envisage that the forms and summonses would be on a "side by side format" as used in Canada; that progress would be made on an all Wales basis and be gradually implemented so that the cost, methodology, need and impact could be assessed. We see no need to recommend any alteration to any internal procedures or to forms used internally by those involved in the criminal justice system; those issues must remain a matter for individual authorities.

.....  
Meistr Ustus Thomas, Barnwr Llywyddol  
Arweiniol Cylchdaith Cymru a Chaer;

.....  
Mr Justice Thomas, Senior Presiding Judge  
of the Wales and Chester Circuit;

.....  
Meistr Ustus Evans, Barnwr Adran Mainc y  
Frenhines o'r Uchel Lys;

.....  
Mr Justice Evans, Judge of the Queen's  
Bench Division of the High Court;

.....  
Winston Roddick, C.F., Cwnsler Cyffredinol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

.....  
Winston Roddick, Q.C., Counsel General to  
the National Assembly for Wales;

.....  
Mrs Nerys Arch, Uwch-gwnsler Cynulliad,  
Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol;

.....  
Mrs Nerys Arch, Senior Assembly Counsel,  
Office of the Counsel General;

.....  
Mr John Lewis, Cyfieithydd Cyfreithiol,  
Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Mr John Lewis, Legal Translator, Office of  
the Counsel General.